



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cod Ymarfer Drafft ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Mae'r fersiwn drafft hwn o'r Cod wedi'i gyhoeddi'n unol ag adran 33 Deddf
Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004..

Cod Ymarfer Drafft ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Mae'r fersiwn drafft hwn o'r Cod wedi'i gyhoeddi'n unol ag adran 33 Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

Cynnwys

Rhagymadrodd

- Golwg gyffredinol a diffiniadau o bwy sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod 1
- Taith dioddefwr drwy'r System Cyfiawnder Troseddol: diagram llif 7

Pennod 1

Rhan A: Hawliau Dioddefwyr

Adran 1: Ymchwiliadau'r Heddlu

1. Gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau i ddiodefwyr, asesiadau o anghenion 11
2. Datganiad Personol Dioddefwr 12

Adran 2: Cyn treial

1. Cyhuddo a Mechniaeth 13
2. Penderfyniadau y tu allan i'r llys 14
3. Ar ôl cyhuddo 14

Adran 3: Treia

1. Bod yn bresennol mewn llys fel tyst 16

Adran 4: Gwybodaeth am Ddedfrydu 17

Adran 5: Apeliadau

1. Os gwneir cais i Lys y Goron i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon 17

2. Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apel i'r Goruchaf Lys mewn achos troseddol i ymwneud â phwynt cyfreithiol 17

Adran 6: Ar ôl Treial

1. Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol 19
2. Cyswllt dieisiau gan droseddwr 19
3. Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr 19
4. Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwr 21

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

1. Dioddefwyr troseddwr sy'n oedolion 22
2. Dioddefwyr troseddau ieuencid 22

Adran 8: Gwneud cais am ddigolledu

1. Gwneud cais 23
2. Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol 24

Adran 9: Sut i gwyno

1. Sut i gwyno 25
2. Ombwdsmon Seneddol 25

Rhan B: Dyletswyddau Asiantaethau

Adran 1: Ymchwiliadau'r Heddlu

1. Gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau i ddioddefwyr, asesiadau o anghenion 27
2. Datganiad Personol Dioddefwr 28

Adran 2: Cyn treial 28

Adran 3: Treial Bod yn bresennol mewn llys fel tyst 31

Adran 4: Penderfyniadau Dedfrydu 31

Adran 5: Apeliadau

1. Os gwneir cais i Lys y Goron apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon 32
2. Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apêl i'r Goruchaf Lys mewn achos troseddol i ymwneud â phwynt cyfreithiol 32

Adran 6: Ar ôl Treial

1. Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol 34
2. Cyswllt dieisiau gan droseddwyr 34
3. Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr 34
4. Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr 35

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

1. Dioddefwyr troseddwyr sy'n oedolion 36
2. Dioddefwyr troseddau ieuencid 36

Adran 8: Digolledu

1. Gwneud cais 37
2. Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol 37

Adran 9: Cwynion 37

Pennod 2

Rhan A: Hawliau plant a phobl ifanc 41

Rhan B: Dyletswyddau asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i lant a phobl ifanc 47

Pennod 3

Busnesau 55

Geirfa 56

Rhagymadrodd

1. Dylid trin dioddefwyr troseddau mewn modd parchus, sensitif a phroffesiynol heb wahaniaethu mewn unrhyw ffordd. Dylent gael cymorth priodol i'w helpu, cyn belled â phosibl, i ymdopi a gwella ac i'w hamddiffyn rhag dioddef trosedd arall.¹
2. Mae'r Cod Ymarfer hwn i Ddioddefwyr Troseddau ("Cod Dioddefwyr") yn amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr ymddygiad troseddol gan sefydliadau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Sut y dylwn ddarllen y Cod Dioddefwyr?

3. Os ydych yn **ddioddefwr trosedd ac yn oedolyn**, gallwch ddefnyddio Pennod 1, Rhan A y Cod hwn i ddilyn eich taith drwy'r broses cyfiawnder troseddol a chanfod beth yw eich hawliau ar bob cam. Mae dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth yn cael mwy o hawliau. Eglurir y tri chategori hyn ym mharagraffau 24-29 y rhagymadrodd hwn.
4. Os ydych yn **ddioddefwr dan 18 mlwydd oed**, neu os ydych yn rhiant neu'n warcheidwad i unigolyn dan 18, mae eich hawliau wedi'u hamlinellu ym Mhennod 2, Rhan A y Cod hwn. Mae canllaw ar wahân i'r Cod hefyd wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar eich cyfer. Mae'r canllaw hwn ar gael ar-lein.²
5. Os ydych yn **darparu gwasanaethau i ddioddefwyr** ar ran sefydliad a restrir isod, amlinellir eich dyletswyddau'n unol â'r Cod yn y Rhagymadrodd hwn ac yn Rhan B Penodau 1 a 2. Bydd canllawiau gweithredol am y Cod yn rhoi mwy o fanylion am sut y dylech gyflawni'r dyletswyddau hyn. Anogir darparwyr gwasanaeth i drafod â dioddefwyr pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion.

Pa sefydliadau sy'n gorfod darparu gwasanaethau'n unol â'r Cod Dioddefwyr hwn??

6. Mae'r Cod hwn yn mynnu bod y sefydliadau canlynol yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr:
 - Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
 - Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol
 - Gwasanaeth Erlyn y Goron
 - Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol)
 - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
 - Y Goruchaf Lys
 - Pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
 - Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)
 - Y Bwrdd Parôl
 - Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi

¹ Mae'r Cod yn gweithredu darpariaethau perthnasol Cyfarwydddeb yr UE sy'n sefydlu safonau gofynnol ar gyfer hawliau dioddefwyr troseddau, eu cefnogi a'u hamddiffyn (^{2012/29/EU}); Cyfarwydddeb ^{2011/92/EU} sy'n ymdrin â cham-drin plant yn rhywiol a'u hecsbloetio'n rhywiol; a Chyfarwydddeb ^{2011/36/EU} sy'n atal masnachu mewn pobl ac yn brwydro yn ei erbyn.

² Ychwanegir dolen at y canllawiau ar y we pan fydd ar gael..

- Darparwyr gwasanaethau prawf (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ymddiriedolaethau prawf)
- Timau Troseddau Ieuencid
- Unedau Gofal i Dystion

Gyda'i gilydd, cyfeirir at y sefydliadau hyn yn y Cod hwn fel "darparwyr gwasanaeth". Gall sefydliadau eraill, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr, ond nid yw'r Cod hwn yn berthnasol iddynt.

Pa fath o gymorth alla'i ei ddisgwyl fel dioddefwr trosedd?

7. Dylai fod pawb sy'n dioddef trosedd, gan gynnwys perthnasau agos mewn profedigaeth, yn gallu cael gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau i ddioddefwyr sydd ar gael i'w cefnogi wrth iddynt wella. Gall y gwasanaethau hyn gael eu darparu i ddioddefwyr gan sefydliadau a gomisiynir yn lleol neu'n genedlaethol. Caiff dioddefwyr eu cyfeirio at wasanaethau i ddioddefwyr yn ôl yr angen yn unol â'r Cod hwn. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gyfathrebu â chi mewn iaith syml a dealladwy, gan gymryd mesurau priodol (e.e. EasyRead, Braille) i'ch cynorthwyo i ddeall a chael eich deall.

Pwy sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod Dioddefwyr hwn?

Dioddefwyr uniongyrchol troseddau, lle gwnaethpwyd honiad i'r heddlu

8. Mae gennych **hawl** i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn os ydych wedi gwneud honiad i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr, neu os gwnaethpwyd honiad ar eich rhan, eich bod wedi profi

ymddygiad troseddol yn **uniongyrchol**. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, os yw unigolyn wedi dioddef trosedd casineb (gweler yr eirfa). Os ydych wedi bod yn dyst i ymddygiad troseddol, ond nad ydych yn ddioddefwr **uniongyrchol**, bydd gwasanaethau ar gael i chi'n unol â'r Siarter Tystion, yn hytrach na'r Cod hwn. Mae'r Siarter Tystion ar gael ar-lein.³

Perthnasau agos i ddioddefwr trosedd sydd mewn profedigaeth

9. Mae gan berthnasau agos y sawl sydd mewn profedigaeth hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod fel dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol.

Llefarydd teuluol teuluoedd sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i drosedd

10. Os yw teulu mewn profedigaeth o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol, mae gan berthnasau agos y sawl sydd mewn profedigaeth (gweler yr eirfa) hawl i enwebu llefarydd teuluol i weithredu fel un pwynt cyswllt i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn a darparu gwybodaeth ar eu rhan. Os na all y perthnasau agos ddewis llefarydd teuluol, rhaid i'r Uwch Swyddog Ymchwilio sy'n gweithio ar yr achos ddewis y llefarydd teuluol.

11. Os yw teulu mewn profedigaeth ar ôl damwain ffordd lle mae'r heddlu'n ymchwilio a oes trosedd (dan adran 3 Deddf Traffig Ffyrdd 1988) wedi'i gyflawni, gellir enwebu llefarydd teuluol fel y nodir uchod.

Llefarydd teuluol i ddioddefwyr ag anabledd neu ddioddefwyr sydd wedi'u hanafu mor ddifrifol o ganlyniad i ymddygiad troseddol fel na allant gyfathrebu

³ Ychwanegir dolen we at fersiwn terfynol y Cod.

12. Os oes gennych anabledd neu eich bod wedi eich anafu mor ddifrifol o ganlyniad i ymddygiad troseddol nes na allwch gyfathrebu, mae gennych chi neu eich perthnasau agos hawl i enwebu llefarydd teuluol i weithredu fel un pwynt cyswllt i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn a darparu gwybodaeth.

Rhiant neu warcheidwad dioddefwr sydd dan 18 mlwydd oed

13. Os ydych yn ddioddefwr dan 18 mlwydd oed, mae gennych chi, a'ch rhiant neu'ch gwarcheidwad fel rheol, hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn.⁴

Pob busnes sy'n dioddef trosedd

14. Mae gan fusnesau sy'n dioddef trosedd hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn (gweler Pennod 3).

Gwybodaeth ychwanegol i bawb sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod:

15. Mae gennych hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod heb ystyried a oes unrhyw un wedi'i gyhuddo neu ei gollfarnu am drosedd yn gysylltiedig â'r ymddygiad troseddol a heb ystyried a ydych yn penderfynu na hoffech gydweithredu â'r ymchwiliad.⁵

16. Os penderfynir, ar ôl ymchwiliad, nad ydych wedi dioddef ymddygiad troseddol, byddwch chi, neu'r llefarydd teuluol pan fo'n berthnasol, yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaeth perthnasol nad oes gennych hawl mwyach i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn.

17. Os nad oeddech yn preswyllo yng Nghymru a Lloegr ar adeg cyflawni'r ymddygiad troseddol, mae gennych yr hawliau safonol a nodir yn y Cod hwn beth bynnag cyn belled â bod y trosedd wedi digwydd yng Nghymru neu Loegr.⁶

18. Os nad ydych yn deall Saesneg, neu os na allwch ei siarad, mae gennych hawl i ofyn am wasanaeth cyfieithu i iaith yr ydych yn ei deall wrth gael eich cyfweld gan yr heddlu neu wrth roi tystiolaeth mewn achos troseddol. Mewn gwrandawiadau o'r fath yng Nghymru, mae gennych hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth a bydd y llys yn darparu ar eich cyfer yn briodol. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth dan sylw sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu o'r fath ar gael.

Sut yr wyf yn gwybod a wyfo fewn un o'r tri grŵp â hawl i gael mwy o hawliau? (Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth)

19. Mae'r cod hwn yn rhoi mwy o hawliau i ddioddefwyr yn y tri grŵp hyn gan ei bod yn fwy tebygol y bydd angen mwy o gefnogaeth a gwasanaethau arnynt drwy gydol proses cyfiawnder troseddol. Bwriad y tri chategori a ddisgrifir yn y cod yw sicrhau y bydd mwy o gefnogaeth ar gael i'r dioddefwyr hynny â'r angen mwyaf. Mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael mwy o hawliau dan fwy nag un categori ar yr un pryd.

⁴ Oni bai bod eich rhiant neu'ch gwarcheidwad yn destun ymchwiliad neu wedi'i gyhuddo gan yr heddlu mewn cysylltiad â'r trosedd neu os, ym marn resymol darparwr y gwasanaeth dan sylw, nad yw er eich lles pennaf chi bod eich rhiant neu'ch gwarcheidwad yn derbyn gwasanaethau o'r fath.

⁵ Os ydych yn ystyried gwneud cais am ddigolledu am anafiadau troseddol i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, dylech fod yn ymwybodol y caiff dyfarniad ei ddal yn ôl oni bai eich bod wedi cydweithredu cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol i ddod â'r troseddwr o flaen ei well.

⁶ Gall eich cymhwyster i gael eich digolledu gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ddibynnu ar eich preswylfa neu eich cenedligrwydd oni bai y cewch eich enwi'n benodol yn ddioddefwr masnachu mewn pobl; neu eich bod wedi derbyn lloches, diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn.

20. Mae hawl gan bawb sy'n dioddef ymddygiad troseddol i gael asesiad gan yr heddlu i ganfod unrhyw anghenion neu gefnogaeth sydd eu hangen. Bydd hyd a chynnwys yr asesiad hwn yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r trosedd ac ar eich anghenion unigol chi. Bydd yr asesiad yn ystyried eich amgylchiadau personol, natur ac amgylchiadau'r trosedd, a'ch safbwyntiau chi.
21. Gan y gallai eich anghenion newid yn ystod yr ymchwiliad i'r ymddygiad troseddol oherwydd iechyd, bygythiadau neu unrhyw reswm arall, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi cyfle i chi i gael asesiad arall os tynnir eu sylw at y newid i'ch amgylchiadau.
22. Wedi i ddarparwr gwasanaeth benderfynu eich bod yn gymwys i gael mwy o hawliau dan y Cod hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hwnnw sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo yn ôl yr angen i ddarparwyr gwasanaeth eraill â chyfrifoldebau'n unol â'r Cod hwn, ac i wasanaethau i ddioddefwyr pan fo'n briodol. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth wirio â chi'n gyntaf eich bod yn fodlon iddynt roi eich gwybodaeth i wasanaethau i ddioddefwyr.
23. Os nad yw dioddefwyr yn perthyn i un o'r tri chategori a amlinellir isod, caiff y darparwr gwasanaeth, er nad oes rhaid iddo wneud hynny, ddefnyddio disgrisiwn a darparu mwy o hawliau'n unol ag un o'r categorïau hyn gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn dan sylw.

Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol

Rydych yn gymwys i gael mwy o hawliau'n unol â'r Cod hwn fel dioddefwr y troseddau mwyaf difrifol os ydych yn ddioddefwr trais rhywiol, troseddau rhywiol eraill, trais

domestig, masnachu mewn pobl, terfysgaeth a throseddau treisgar megis clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol, neu os ydych yn berthynas agos sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i ymddygiad troseddol. Nodir hawliau ychwanegol eraill i deuluoedd mewn profedigaeth ar wahân mewn gwahanol rannau o'r Cod hwn.

Dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson

24. Rydych yn gymwys i gael mwy o hawliau'n unol â'r Cod hwn fel dioddefwr sy'n cael ei dargedu'n gyson os cawsoch eich targedu'n fynych fel dioddefwr uniongyrchol i drosedd dros gyfnod, yn enwedig os cawsoch eich targedu'n fwriadol neu eich bod wedi dioddef ymgyrch aflonyddu barhaus.

Dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth

25. Rydych yn gymwys am fwy o hawliau'n unol â'r Cod hwn fel **dioddefwr agored i niwed**⁷ os:
- (a) ydych chi dan 18 mlwydd oed ar adeg y trosedd, neu
 - (b) os yw ansawdd eich tystiolaeth yn debygol o ddioddef:
 - i) o ganlyniad i anhwylder meddyliol sydd gennych o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;
 - ii) gan fod gennych nam sylweddol arall o ran deallusrwydd a gweithgarwch cymdeithasol; neu
 - iii) gan fod gennych anabledd corfforol neu eich bod yn dioddef o anhwylder corfforol.
26. Os nad oes sicrwydd faint oed yw dioddefwr a bod rhesymau i gredu bod yr unigolyn dan 18 oed, dylai darparwyr gwasanaeth dybio

⁷ Bydd y llys yn penderfynu pwy sy'n gymwys am fesurau arbennig yn seiliedig ar feini prawf adran ¹⁶ Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol ¹⁹⁹⁹ (gweler yr eirfa).

bod yr unigolyn dan 18 oed a bod ganddo/ ganddi felly hawl i gael mwy o hawliau fel yr amlinellir yn y rhan o'r Cod hwn sy'n ymdrin â dioddefwyr dan 18 mlwydd oed (Pennod 2).

27. Rydych yn gymwys i gael mwy o hawliau'n unol â'r Cod hwn fel **dioddefwr sy'n cael ei fygwth**⁸ os yw'r darparwr gwasanaeth yn credu y bydd eich ofn neu drallod ynglŷn â rhoi tystiolaeth yn y llys yn effeithio ar ansawdd eich tystiolaeth.
28. Wrth asesu a yw dioddefwr wedi'i **fygwth**, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried y canlynol:
- unrhyw ymddygiad tuag at y dioddefwr ar ran y sawl a gyhuddwyd, aelodau teulu neu un o gydnabod y sawl a gyhuddwyd, ac unrhyw un arall sy'n debygol o fod wedi'i gyhuddo neu'n dyst mewn achos llys posibl;
 - natur ac amgylchiadau honedig y trosedd y mae achos llys posibl yn berthnasol iddo. Ystyrir yn awtomatig bod dioddefwyr trosedd rhywiol neu fasnachu mewn pobl yn cael eu bygwth;
 - oed y dioddefwr;
 - unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol: cefndir cymdeithasol a diwylliannol, tarddiad ethnig, amgylchiadau cartref a chyflogaeth, credoau crefyddol neu safbwyntiau gwleidyddol y dioddefwr.

Wrth asesu a yw dioddefwyr yn y categori "cael eu bygwth", rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ystyried yn benodol beth yw anghenion dioddefwyr trais domestig a throseddau casineb (gweler yr eirfa).

Beth os nad wyf yn dymuno derbyn y gwasanaethau y mae gennyf hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn?


29. Efallai y penderfynwch na hoffech chi gael rhywfaint, neu'r cyfan, o'r wybodaeth neu'r gwasanaethau y mae gennyf hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn, neu yr hoffech chi ddewis peidio â'u cael. Os felly, gallwch drafod â'r darparwr gwasanaeth beth fyddai'r ffordd orau o deilwra'r hawliau hyn i'ch anghenion chi.
30. Cewch newid eich meddwl i aildechrau derbyn y gwasanaethau'n unol â'r Cod unrhyw bryd tra mae'r heddlu'n dal i ymchwilio i'r achos.

Beth sy'n digwydd os nad wyf yn derbyn y gwasanaethau y mae gennyf hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn?

31. Mae adran 9 y Cod hwn yn amlinellu eich hawliau os dymunwch gwyno am y gwasanaethau yr ydych wedi'u derbyn.
32. Os bydd darparwr gwasanaeth yn methu â darparu'r gwasanaethau y mae gennyf hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn, nid yw hynny ynddo'i hun yn golygu y bydd y darparwr yn wynebu achos cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r Cod hwn yn dderbyniadwy mewn tystiolaeth mewn achos cyfreithiol. Gall y llys ystyried methiant i gydymffurfio â'r Cod hwn wrth iddynt wneud penderfyniadau mewn unrhyw achos o'r fath.

⁸ Bydd y llys yn penderfynu pwy sy'n gymwys am fesurau arbennig yn seiliedig ar y prawf yn adran 17 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (gweler yr eirfa).

Taith dioddefwr drwy'r System Cyfiawnder Troseddol



Allwedd

Camau allweddol gwybodaeth am yr achos

Diwedd yr achos. Dioddefwr yn cael gwybod am y canlyniad

UGD Unedau Gofal i Dystion

TTI Timau Troseddau Ieuencid

GEG Gwasanaeth Eryln y Goron

DPD Datganiad Personol Dioddefwr

GLITEM Gwasanaeth Llysoedd a Thribwlysoedd Ei Mawrhydi


CAAT Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

CCD Gynllun Cysylltu â Dioddefwyr

AA Asesiad o Anghenion

PC Pwynt Cyswilt

CA Cyfiawnder Adferol



Pennod 1

Rhan A:

Hawliau Ddiodefwyr

Adran 1: Ymchwiliadau'r Heddlu

(i) Gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau i ddiodefwyr ac asesiadau o anghenion

1. Mae gennych **hawl** i dderbyn y canlynol gan yr heddlu:
 - Eglurhad clir o'r hyn i'w ddisgwyl o'r broses cyfiawnder troseddol wrth i chi riportio trosedd;
 - Aseiad o'ch anghenion fel y gallwch gael gwasanaethau i ddiodefwyr os ydynt yn briodol;
 - Naill ai wybodaeth ysgrifenedig am yr hyn i'w ddisgwyl o'r system cyfiawnder troseddol, megis taflen "gwybodaeth i ddiodefwyr troseddau", neu fanylion gwefan sy'n cynnwys yr un wybodaeth, cyn gynted â phosibl, a ddim mwy na 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud yr honiad;
 - Cael gwybod pa mor aml y cewch eich diweddarau am statws yr achos ar ôl trafodaeth â'r heddlu;
 - Eglurhad, os yw'r heddlu, gan ddefnyddio eu barn broffesiynol, yn penderfynu na fydd ymchwiliad i'r achos, o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud yr honiad;
 - Cael gwybod pan fydd ymchwiliad i'r achos wedi'i gwblhau heb i neb gael ei gyhuddo, a chael eglurhad o'r rhesymau am hyn.
2. Cewch ofyn am i'r heddlu basio eich manylion i wasanaethau i ddiodefwyr os ydych yn teimlo bod angen cymorth neu gefnogaeth arnoch. Mae gennych **hawl** i'ch manylion gael eu pasio i wasanaethau i ddiodefwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl gwneud cais. Mae gennych hefyd **hawl** i gael manylion cyswllt gwasanaethau i ddiodefwyr gan yr heddlu fel y gallwch gael cefnogaeth ganddynt unrhyw bryd.
3. Mae gennych hefyd **hawl** i gael gwybod gan yr heddlu o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i unigolyn a amheuir gael ei arestio, ei ryddhau heb gymryd camau pellach, ei ryddhau ar fechnïaeth heddlu, neu os caiff amodau mechnïaeth eu newid neu eu canslo, ac i gael eglurhad o'r rhesymau perthnasol. Gallwch gael trafodaeth â'r heddlu i gytuno ar wahanol amseroedd i dderbyn y wybodaeth a'r gwasanaethau uchod i weddu i'ch anghenion.
4. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir ym mharagraffau 1 a 3 uchod, **os ydych yn ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, yn cael eich targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu'n cael eich bygwth**, mae gennych hawl i gael y canlynol gan yr heddlu:
 - Cael eich cyfeirio'n awtomatig at wasanaethau i ddiodefwyr oni bai y byddai'n well gennych beidio, o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl gwneud honiad;

- Cael eglurhad o fesurau arbennig, pan fo'n briodol;
- Cael eich cyfeirio at sefydliad arbenigol, pan fo'n briodol a phan fo un ar gael;
- Cael gwybodaeth am therapi cyn treial a chynghori pan fo'n briodol;
- Cael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i unigolyn a amheuir gael ei arestio, ei ryddhau heb gymryd camau pellach, ei ryddhau ar fechnïaeth, neu os caiff amodau mechnïaeth eu newid neu eu canslo, ac i gael eglurhad o'r rhesymau;
- Ar ôl cael gwybod bod achos wedi'i gwblhau heb i neb gael ei gyhuddo, cael gwybod am ailagor yr ymchwiliad neu unrhyw weithdrefnau adolygu os dymunwch.

5. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir uchod, os ydych yn **berthynas agos i ddioddefwr a fu farw o ganlyniad i ymddygiad troseddol**, mae gennych hawl i'r canlynol:
- Cael Swyddog Cyswllt Teuluol wedi'i neilltuo i chi gan yr heddlu;
 - Cael cynnig cyngor am brofedigaeth a gwybodaeth am wasanaethau i ddioddefwyr sydd ar gael gan yr heddlu.

(ii) Datganiad Personol Dioddefwr

6. Mae Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) yn rhoi cyfle i chi i egluro yn eich geiriau eich hun sut y mae trosedd wedi effeithio arnoch, yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae hyn yn wahanol i ddatganiad tyst tystiolaethol, sef dogfen i gofnodi eich tystiolaeth, megis yr hyn y gwnaethoch ei weld neu ei glywed. Mae'r DPD yn rhoi **llais** i chi yn y broses cyfiawnder troseddol, ond ni chewch fynegi eich barn am y ddedfryd neu'r gosb y dylai'r unigolyn a amheuir ei chael (lle'r llys yw penderfynu hyn).
7. Mae gennych **hawl** i wneud DPD ar yr un pryd â rhoi datganiad tyst tystiolaethol i'r heddlu am drosedd.
8. Although you are entitled to make a VPS, you do not have to do so. If you are initially unsure about making a VPS when you are giving an evidential witness statement, you can choose to make a VPS at a later time – provided this is before the case comes to court or the suspect is sentenced.

9. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir uchod, **os ydych yn ddioddefwr y troseddau mwyaf difrifol, yn cael eich targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu'n cael eich bygwth**, mae gennych hawl i wneud DPD i'r heddlu unrhyw bryd, hyd yn oed os na wnewch ddatganiad tyst tystiolaethol.

10. Mae'n bwysig eich bod yn gwybod, os dewiswch beidio â gwneud DPD pan gewch y cynnig cyntaf, ei bod yn bosibl na chewch gyfle arall i wneud un yn ddiweddarach. Y rheswm am hyn yw y gallai'r llysoedd ddelio â'r achos yn gyflym iawn.
11. Wedi i'r datganiad gael ei gwblhau a'i lofnodi, ni ellir addasu DPD na'i dynnu'n ôl (fel unrhyw ddatganiad ffurfiol arall) os ydych yn ailystyried yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Fodd bynnag, cewch gyflwyno DPD arall i'r heddlu i ychwanegu at eich DPD gwreiddiol, ei egluro neu ei ddiwygio.
12. Os yw'r achos yn cyrraedd y llys, caiff eich DPD ei ddatgelu i'r amddiffyniad, a gellir eich holi amdano. Os penderfynir bod yr unigolyn a amheuir yn euog a'i fod yn cael dedfryd, rhaid i'r llys benderfynu ar ddedfryd briodol, gan ystyried holl amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr. Bydd hyn yn cynnwys ystyried, cyn belled ag y mae'n briodol yng ngolwg y llys, effaith y trosedd arnoch chi.
13. Efallai y bydd y llys yn penderfynu y dylid darllen eich DPD yn llawn neu'n rhannol wrth roi'r ddedfryd mewn llys agored. Mae hyn yn golygu y gallai eich DPD ymddangos yn y cyfryngau.
14. Cewch gyflwyno DPD arall i ychwanegu at eich DPD gwreiddiol, ei egluro neu ei ddiwygio, os gwneir apêl yn erbyn y ddedfryd wreiddiol.

Adran 2: Cyn Treial – Cyhuddo a Mechnïaeth

(i) Cyhuddo a Mechnïaeth

1. Mae gennych **hawl** i gael gwybod o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl penderfyniad:
 - I erlyn yr unigolyn a amheuir;
 - I beidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir; neu
 - I wneud penderfyniad y tu allan i'r llys am y troseddwr (gweler isod).

Os cewch wybod am benderfyniad i beidio ag erlyn, cewch wybod hefyd am eich hawl i gael eglurhad manylach o'r penderfyniad i beidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir, a sut y gallwch ddefnyddio eich hawl i geisio adolygiad o'r penderfyniad hwn os ydych yn anfodlon ag ef.

2. Mae gennych **hawl** i gael gwybod gan yr heddlu am y wybodaeth a nodir isod o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r heddlu gael y wybodaeth berthnasol:
 - Dyddiad a lleoliad y gwrandawriad llys cyntaf, os yw'n briodol;
 - Unrhyw amodau mechnïaeth ac unrhyw newidiadau i'r amodau mechnïaeth hyn, gan gynnwys os caiff yr unigolyn a amheuir ei ryddhau ar fechnïaeth yr heddlu i ymddangos yn y llys, dyddiad y gwrandawriad llys, a'r canlyniad, gyda rhesymau;
 - Dyddiadau a chanlyniad unrhyw wrandawriad remand, megis a gaiff yr unigolyn a amheuir ei remandio yn y ddalfa neu a gaiff fechnïaeth gan y llys.

3. Os ydych yn ddiodeffwr y troseddau mwyaf difrifol, yn cael eich targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu'n cael eich bygwth, mae gennych hawl i gael y wybodaeth a nodir ym mharagraffau 1 a 2 uchod o fewn 1 diwrnod gwaith.

4. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir uchod, ym mhob achos cymwys⁹, os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, mae gennych hawl i gyfarfod â GEG cyn neu ar ôl penderfyniad gan GEG am gyhuddo unigolyn a amheuir neu beidio. Os penderfynir cyhuddo, bydd GEG yn egluro sut y mae'r achos yn debygol o fynd yn ei flaen, ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd GEG hefyd yn trafod eich anghenion â chi ac yn cytuno ar ba mor aml i gysylltu â chi.

(ii) Penderfyniadau y tu allan i'r llys

5. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yr heddlu neu GEG yn credu ei bod yn briodol ymdrin â throsedd heb fynd i'r llys. Mantais hyn yw y gellir delio â'r digwyddiad yn gymharol gyflym ac y gall fod yn fwy effeithiol o ran atal troseddau pellach. Os yw'r llys neu GEG yn ystyried penderfyniad y tu allan i'r llys, efallai y byddant yn gofyn am eich barn.

(iii) Ar ôl cyhuddo

Gwybodaeth cyn treial

6. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:
- Cael eich hysbysu gan GEG am unrhyw benderfyniad a wnânt i atal achos o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad. Mae gennych hawl i wybod sut y gallwch gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallwch ddefnyddio eich hawl i geisio adolygiad o'r penderfyniad hwn os ydych yn anfodlon ag ef;
 - Gofyn am eglurhad manylach o'r penderfyniad i atal yr achos. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd GEG yn ysgrifennu atoch i roi'r rhesymau am y penderfyniad;
 - Cael eich hysbysu am unrhyw benderfyniad gan GEG i newid cyhuddiad yn sylweddol, a'r rhesymau am y penderfyniad, o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl iddynt wneud y penderfyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd GEG yn ysgrifennu atoch i roi'r rhesymau am y penderfyniad;
7. Yn yr adran hon, os yw'n ofynnol bod eich Uned Gofal i Dystion yn darparu rhai o'r gwasanaethau a restrir isod i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, yn eu lle, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddioddefwyr. Bydd yr heddlu'n dweud wrthyh os yw hyn yn berthnasol i chi.

⁹ Gweler yr eirfa sy'n rhestru pob achos cymwys.

8. Mae gennych hefyd **hawl** i'r canlynol:

- Cael gwybod am ddyddiad, lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawiadau llys troseddol sy'n berthnasol i'r achos gan eich Uned Gofal i Dystion. Rhaid darparu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion ei derbyn gan y llys;
- Cael gwybod gan eich Uned Gofal i Dystion os cyhoeddir gwarant arestio ar gyfer unigolyn a amheuir neu os caiff rhywun ei arestio. Rhaid darparu'r wybodaeth hon o fewn 4 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion ei derbyn gan y llys;
- Mewn achosion lle mae'r unigolyn a amheuir yn pledio'n ddieuog, trafod unrhyw anghenion sydd gennych â'r Uned Gofal i Dystion a chael eich cyfeirio at grŵp cefnogi neu asiantaeth berthnasol pan fo'n briodol
- Cael gwybod gan eich Uned Gofal i Dystion os oes angen i chi roi tystiolaeth, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion gael gwybod gan GEG. Mae gennych hawl hefyd i gael gwybod beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut i gael taflen "Tyst yn y Llys";
- Arsylwi achos llys os nad ydych yn dyst yn yr achos.

9. Os oes angen i chi roi tystiolaeth, mae gennych **hawl** i gael asesiad llawn o'ch anghenion gan eich Uned Gofal i Dystion i sicrhau eich bod yn cael cymorth i roi eich tystiolaeth orau. Mae gennych **hawl** hefyd i ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial i ymgyswrtio â'r adeilad a'r ystafell llys.

10. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir uchod, **os ydych yn ddioddefwr y troseddau mwyaf difrifol, yn cael eich targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu'n cael eich bygwth**, cewch gyfle i drafod â GEG y rhesymau am benderfynu newid cyhuddiad yn sylweddol, os hoffech wneud hynny. Mae gennych hefyd **hawl** i'r canlynol:

- Cael eich hysbysu am unrhyw benderfyniad a wnaiff GEG i atal achos neu i newid cyhuddiad yn sylweddol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl iddynt wneud y penderfyniad hwnnw;
- Cael gwybod gan yr heddlu neu eich Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith os cyhoeddir gwarant arestio ar gyfer unigolyn a amheuir neu os caiff ei arestio eto;
- Cael gwybod am ganlyniad unrhyw gais am fesurau arbennig.

11. Os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth** mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa), mae gennych hefyd **hawl** i'r canlynol:

- Gofyn i'ch Uned Gofal i Dystion am gael ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial i ymgyswrtio â'r adeilad, p'un a oes angen i chi roi tystiolaeth ai peidio;
- Cyfarfod ag erlynydd neu fargyfreithiwr GEG a fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Fel rheol, bydd y cyfarfod hwn yn

digwydd ychydig cyn y treial ac mae'n gyfle i chi gael eich cyflwyno a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych..

Adran 3: Treial

(i) Bod yn Bresennol mewn Llys fel Tyst

1. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Cyfarfod â'r erllynydd neu gynrychiolydd GEG os yw'r amgylchiadau'n caniatáu hynny a gofyn cwestiynau iddo neu iddi am broses y llys. Bydd ef neu hi hefyd yn dynodi, os yw'n bosibl, pa mor hir y gall fod rhaid i chi aros cyn rhoi tystiolaeth;
 - Os yw'n bosibl, cael eglurhad gan yr erllynydd neu gynrychiolydd GEG os bydd oediad yn yr achos ar y diwrnod a pha mor hir y mae'n debygol y byddwch yn aros;
 - Gofyn i staff y llys a gewch aros mewn man ar wahân i'r unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau. Bydd y llys yn sicrhau y gwneir hyn os yw'n bosibl;
 - Trefnu unrhyw fesurau arbennig ar eich cyfer os yw'r llys wedi cytuno arnynt;
 - Cael gwybod am unrhyw bwynt cyswllt yn y llys fel y gallwch gael gwybod beth sy'n digwydd yn yr achos tra mae'n cael ei wrando.
2. Os oes angen i chi adael adeilad y llys unrhyw bryd, dylech roi eich manylion cyswllt i staff y llys fel y gallant gysylltu â chi os oes angen.
3. Ar ôl y treial, os yw'n ofynnol bod eich Uned Gofal i Dystion yn darparu rhai o'r gwasanaethau a restrir isod i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, yn eu lle, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddioddefwyr. Bydd yr heddlu'n dweud wrthyh os yw hyn yn berthnasol i chi.
4. Ar ôl y treial, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Derbyn unrhyw gostau y mae GEG wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i chi o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl i GEG dderbyn ffurflen wedi'i llenwi'n gywir¹⁰;
 - Cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion am ganlyniad y treial. Darperir y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion ei derbyn gan y llys;
 - Cael eich cyfeirio at wasanaethau i ddioddefwyr pan fo'n briodol a phan fyddant ar gael gan yr Uned Gofal i Dystion
5. Os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa), mae gennych hefyd **hawl** i gyfarfod â GEG i gadarnhau bod DPD wedi'i wneud neu i gadarnhau ei fod yn gyfredol. Mae gennych hefyd **hawl** i gyfarfod â GEG mewn achosion sy'n diweddu mewn rhyddfarn neu gollfarn am gyhuddiad llai difrifol. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd rai wythnosau ar ôl diwedd yr achos.

¹⁰ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Erllyn y Goron 'Lwfansau Tystion ac ati' 1988.

Adran 4: Gwybodaeth am Ddedfrydu

1. Mae'n ofynnol i'ch Uned Gofal i Dystion ddarparu rhai o'r gwasanaethau a restrir isod i chi. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, yn eu lle gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Bydd yr heddlu'n dweud wrthyfch os yw hyn yn berthnasol i chi.
2. Mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth ganlynol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r darparwr gwasanaeth ei derbyn::
 - Cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion am y ddedfryd a roddwyd i'r unigolyn a amheuir os caiff gollfarn. Mae hyn yn cynnwys eglurhad byr o ystyr ac effaith y ddedfryd;
 - Cael eich cyfeirio at GEG a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y ddedfryd na all yr Uned Gofal i Dystion eu hateb;
 - Cael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddedfryd wreiddiol ar ôl apêl.
3. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir uchod, os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, mae gennych **hawl** hefyd i gyfarfod â chynrychiolydd GEG a chael eglurhad o'r ddedfryd a roddwyd..

Adran 5: Apeliadau

1. Os yw'n ofynnol bod eich Uned Gofal i Dystion yn darparu gwasanaethau yn yr adran hon i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, yn eu lle gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Bydd yr heddlu'n dweud wrthyfch os yw hyn yn berthnasol i chi.
(i) Os gwneir cais i Lys y Goron i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon.
2. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Cael gwybod am unrhyw rybudd o apêl sydd wedi'i wneud, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad, a chanlyniad yr apêl hwnnw gan eich Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion dderbyn y wybodaeth gan y llys;
 - Aros ac eistedd yn y llys mewn man ar wahân i'r unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau. Bydd y Llys yn sicrhau y gwneir hyn os yw'n bosibl;
 - Cael pwynt cyswllt gan staff Llys y Goron os yw'n bosibl; bydd ef neu hi'n rhoi gwybodaeth i chi am ganlyniad yr apêl cyn gynted ag y bydd yn hysbys.

(ii) Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r llys apêl, neu os gwneir cais neu apêl i'r Goruchaf Lys mewn achos troseddol i ymwneud â phwynt cyfreithiol.

3. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am statws yr apêl, gan gynnwys dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad, gan eich Uned Gofal i Dystion;
- Aros ac eistedd yn y llys mewn man ar wahân i'r apelydd a'i deulu a'i ffrindiau. Bydd staff y llys yn sicrhau y gwneir hyn os yw'n bosibl. Gwneir trefniadau arbennig yn y Goruchaf Lys ac mae'n annhebygol y bydd y troseddwr yn bresennol yn y gwrandawriad;
- Cael pwynt cyswllt gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu'r Goruchaf Lys os yw'n bosibl. Bydd ef neu hi'n rhoi gwybodaeth i chi am ganlyniad yr apêl cyn gynted ag y bydd yn hysbys;
- Gofyn am gopi o ddyfarniad y Llys yn yr achos cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi (gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu'r Goruchaf Lys).

4. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir ym mharagraff 3 uchod, **os ydych yn ddioddefwr y troseddau mwyaf difrifol, yn cael eich targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu'n cael eich bygwth**, mae gennych **hawl** i gael gwybodaeth am statws yr apêl, gan gynnwys dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion dderbyn y wybodaeth honno gan y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu gan y Goruchaf Lys.

5. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir ym mharagraffau 3 a 4 uchod, **os ydych yn berthynas agos mewn profedigaeth**, ym mhob achos cymwys (gweler yr eirfa), ac os yw'r apelydd wedi cael caniatâd i apelio, mae gennych **hawl** i gael cynnig cyfarfod â GEG i gael eglurhad o natur yr apêl a'r prosesau llys.

Adran 6: Ar ôl Treial

(i) Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

1. Ar ôl cael cais gan droseddwr, bydd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn adolygu collfarnau a dedfrydau a bennwyd o ganlyniad i ymddygiad troseddol y troseddwr. Gall y Comisiwn atgyfeirio collfarn neu ddedfryd am apêl ffres os oes gwybodaeth newydd neu ddatl newydd a all olygu nad yw'r gollfarn yn ddiogel neu bod y ddedfryd yn rhy hir. Mae'r Comisiwn yn derbyn tua 1000 o geisiadau gan unigolion dan gollfarn bob blwyddyn ac yn atgyfeirio tua 30-40 o achosion am apêl ffres. Wrth gynnal adolygiad, bydd y Comisiwn yn asesu'r effaith bosibl arnoch chi ac yn penderfynu a ddylid eich hysbysu. Bydd y Comisiwn yn cofnodi'r rhesymau am eu penderfyniadau o ran sut i gysylltu â chi, ac mewn achosion priodol, byddant yn rhoi gwybod i'r heddlu am y penderfyniadau hynny.
2. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu ei bod yn briodol cysylltu â chi yn ystod yr adolygiad, bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i chi eu bod wedi derbyn cais a bod y cais hwnnw'n destun adolygiad. Ar ôl yr adolygiad, bydd y Comisiwn yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r gollfarn neu'r ddedfryd i'r llysoedd, a byddant yn rhoi gwybod i chi am eu penderfyniad oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol am beidio â chael gwybod.

(ii) Cyswllt dieisiau gan droseddwr

3. Nid yw carcharorion yn cael ffonau symudol, a dim ond at ddibenion addysgiadol, cyflogaeth a gweithgareddau ailsefydlu y cânt ddefnyddio'r rhyngwrwyd. Nid ydynt

yn cael defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Os cewch gyswllt dieisiau o unrhyw fath gan garcharor, gallwch siarad â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (SCD, gweler yr eirfa) os oes gennych un, neu riportio'r mater drwy ffonio'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr ar 0845 7585 112.

4. Os cewch gyswllt dieisiau gan droseddwr sydd ar drwydded yn y gymuned, gallwch gysylltu â'ch ymddiriedolaeth prawf leol, yr heddlu, neu eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr os oes gennych un. Os yw'r troseddwr dan 18 oed a dan oruchwyliaeth Tîm Troseddau leuenctid, gallwch gysylltu â'r Tîm Troseddau leuenctid hwnnw i riportio unrhyw gyswllt dieisiau.

(iii) Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol

5. Os yw'n ofynnol bod eich Uned Gofal i Dystion yn darparu gwasanaethau yn yr adran hon i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, yn eu lle gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddioddefwyr. Bydd yr heddlu'n dweud wrthyh os yw hyn yn berthnasol i chi.
6. Os ydych yn ddioddefwr i droseddwr sydd wedi cyflawni trosedd treisgar neu rywiol ac sydd wedi cael dedfryd o garchar am 12 mis neu fwy, neu wedi'i gadw mewn ysbyty diogel yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Cael gwybod am y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr gan eich Uned Gofal i Dystion a chael gwybod y caiff eich manylion eu rhoi i'r ymddiriedolaeth prawf os hoffech gymryd rhan.

¹¹ Fel y'u diffinnir yn adran 45 (2) Deddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004

- Os penderfynwch gymryd rhan, caiff eich manylion eu rhoi i'r ymddiriedolaeth prawf, a chewch benderfynu a hoffech dderbyn gwybodaeth ar gamau allweddol yn nedfryd y troseddwr, yn unol â disgresiwn yr ymddiriedolaeth prawf;
 - Gwneud sylwadau i'r ymddiriedolaeth prawf am yr amodau yr hoffech iddynt gael eu cynnwys ar drwydded rhyddhau neu amodau rhyddhau'r troseddwr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys amod dim cysylltu i atal y troseddwr rhag cysylltu â chi neu'ch teulu;
 - Cael gwybod gan yr ymddiriedolaeth prawf am unrhyw amodau sy'n berthnasol i droseddwr pan gaiff ei ryddhau ac sy'n ymwneud â'ch teulu a chi;
 - Cael gwybod dyddiad diweddu'r amodau hyn;
 - Cael Swyddog Cyswllt Dioddefwyr wedi'i neilltuo i chi i weithredu fel pwynt cyswllt yn yr ymddiriedolaeth prawf.
7. Os ydych yn ddiodeffwr i droseddwr sydd wedi cyflawni trosedd treisgar neu rywiol ond sydd wedi'i gadw mewn ysbyty diogel gan fod ganddo neu ganddi anhwylder meddyliol, bydd y wybodaeth a gewch yn dibynnu a oedd cadw'r troseddwr yn destun 'cyfyngiadau' gan y llys (gan ei wneud neu ei gwneud yn 'glaf cyfyngedig', gweler yr eirfa).
8. Os ydych yn ddiodeffwr i droseddwr sy'n cael ei gadw mewn ysbyty diogel am driniaeth, bydd rhai o'r penderfyniadau am sut i reoli'r troseddwr yn ymwneud yn uniongyrchol â'r driniaeth feddygol y mae'n ei chael; bydd hyn yn wybodaeth feddygol gyfrinachol ac ni ellir ei phasio i chi. Mae gennych **hawl** i wneud sylwadau am amodau rhyddhau'r troseddwr os caiff ei ryddhau, gan gynnwys ardaloedd dan waharddiad neu amodau sy'n atal y troseddwr rhag cysylltu â chi. Ymgynghorir â chi am newidiadau i'r amodau hyn, a chewch wybod os caiff y troseddwr ei alw'n ôl i'r ysbyty am driniaeth bellach.
9. Os ydych yn ddiodeffwr i droseddwr sy'n cael ei gadw mewn ysbyty diogel am driniaeth, mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth ganlynol:
- a yw wedi cael ei ryddhau, neu a oes Gorchymyn Triniaeth yn y Gymuned wedi'i wneud, lle caiff troseddwr ei drin yn y gymuned ac, os felly,
 - pa amodau, os oes rhai, sydd ar waith er mwyn eich amddiffyn chi neu eich teulu
 - pryd y daw'r trefniadau hynny i ben, naill ai gan fod y troseddwr wedi'i alw'n ôl i'r ysbyty, gan ei fod wedi'i ryddhau'n llwyr neu gan fod y Gorchymyn Triniaeth yn y Gymuned wedi'i godi.
10. Fodd bynnag, nid oes gennych hawl statudol i wybod:
- pryd y caiff y troseddwr ganiatâd i adael yr ysbyty am gyfnod;
 - ble mae'r troseddwr yn cael ei gadw;
 - os yw'r troseddwr yn trosglwyddo i ysbyty arall;
 - ble bydd rhaid i'r troseddwr fyw os caiff ei ryddhau

¹² Fel y'u diffinnir yn adran 45 (2) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

11. Efallai y bydd eich SCD (gweler yr eirfa) neu reolwyr ysbyty'n rhoi mwy o wybodaeth i chi, ond efallai na fydd llawer ohoni. Er enghraifft, fel rheol byddai'n groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 i roi cyfeiriad y troseddwr i chi.
12. Os ydych yn berthynas agos mewn profedigaeth a bod y troseddwr yn eich achos yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mharagraff 6, cewch gynnig cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr hefyd, ond os nad chi yw perthynas agosaf y dioddefwr, bydd hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn yr ymddiriedolaeth prawf.
13. Os ydych yn rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr i ddioddefwr sydd naill ai dan 18 mlwydd oed, yn oedolyn agored i niwed neu'n methu â chymryd rhan yn llawn yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr am reswm arall, fel rheol cewch gynnig gwneud hynny ar eu rhan. Fodd bynnag, efallai na chaiff hyn ei gynnig os ystyrir na fyddai er pennaf les y dioddefwr.

(iv) Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr

14. Mae'r Bwrdd Parôl yn gorff annibynnol sy'n cydweithio â'u partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol i ddiogelu'r cyhoedd drwy gynnal asesiadau risg ar rai carcharorion penodol i benderfynu a yw'n ddiogel eu rhyddhau i'r gymuned. Maent yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Gwladol i ryddhau rhai categorïau penodol o droseddwr, neu'n argymhell ei fod yn eu trosglwyddo i amodau agored, sef carcharorion sydd wedi cael dedfryd amhenodol, gan gynnwys y rheini sydd wedi cael dedfryd oes, a rhai categorïau penodol o garcharorion sydd wedi cael dedfryd benodol neu am gyfnod penodedig, gan gynnwys y rheini sydd wedi cael rhai dedfrydau estynedig penodol. Os nad ydych yn siŵr a gaiff y troseddwr yn eich achos chi ei ystyried gan y Bwrdd Parôl, dylech drafod hyn â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr.
15. Os ydych wedi dewis bod yn rhan o'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr a bod y Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau'r troseddwr neu ei symud i amodau agored, mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr ymddiriedolaeth prawf:
 - Cael gwybod gan yr ymddiriedolaeth prawf os yw'r Bwrdd Parôl yn mynd i gynnal cyfarfod;
 - Cynnig sylwadau am amodau trwydded i'r Bwrdd Parôl;
 - Os ydych wedi gofyn am amod trwydded ac nad yw wedi'i chynnwys ar drwydded rhyddhau'r troseddwr, rhoddir eglurhad i chi;
 - Gwneud Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) i'r Bwrdd Parôl ei ddefnyddio os hoffech a chael rhywun i'w egluro i chi;
 - Gwneud cais i fod yn bresennol mewn gwrandawriad llafar Bwrdd Parôl i gyflwyno eich DPD mewn achosion lle mae'r Bwrdd Parôl yn penderfynu ei bod yn briodol cynnal gwrandawriad llafar.
16. Mae'r DPD yn rhoi cyfle i chi i egluro yn eich geiriau eich hun sut y mae trosedd wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu, yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Efallai y byddwch eisoes wedi gwneud DPD yn agosach at adeg y trosedd. Ar y cam hwn, cewch gyfle i wneud DPD newydd i'r Bwrdd Parôl ei ddefnyddio i adlewyrchu eich safbwyntiau neu eich teimladau presennol, neu gallwch ddiweddarau'r DPD a wnaethoch yn y llys.

17. Dylech gynnwys eich barn am:

- Effaith y trosedd arnoch chi, pan ddigwyddodd y trosedd ac wedi hynny; ac
- Yr effaith bosibl y credwch y câi rhyddhau'r carcharor neu ei symud i amodau agored arnoch chi;
- Ni ddylech gynnwys barn am a ddylid rhyddhau'r carcharor ai peidio.

18. Fel rheol, caiff eich DPD ei ddatgelu

i'r carcharor. Mewn achosion eithriadol, cewch wneud cais am i'ch DPD beidio â chael ei ddatgelu i'r carcharor, os credwch y gallai ei ddatgelu achosi risg o niwed difrifol i chi neu eich teulu, neu y byddai hynny'n cael effaith anffafriol iawn arnoch. Y Bwrdd Parôl fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol am ei ddatgelu.

19. Os hoffech fod yn bresennol i ddarllen eich DPD yn bersonol, cewch wneud cais i wneud hynny. Cadeirydd panel y Bwrdd Parôl fydd yn penderfynu a gewch fod yn bresennol. Fel rheol, ni fydd y carcharor yn bresennol pan fyddwch yn darllen eich datganiad, yn enwedig os yw'r Bwrdd Parôl wedi cytuno i beidio â datgelu eich DPD i'r carcharor. Mae'n annhebygol y gallwch fod yn bresennol drwy gydol gwrandawriad y Bwrdd Parôl.

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

(i) Dioddefwyr troseddwr sy'n oedolion

1. Os yw'r troseddwr yn oedolyn, mae gennych **hawl** i dderbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan yr heddlu a chael gwybod sut y gallech gymryd rhan. Mae hyn yn dibynnu ar ddarpariaeth cyfiawnder adferol yn eich ardal leol.

2. Mae cyfiawnder adferol yn wirfoddol – nid oes rhaid i chi gymryd rhan, a rhaid i chi a'r troseddwr gytuno ag ef cyn y gall ddigwydd. Felly, ni all fod ar gael yn awtomatig oni bai bod y naill barti a'r llall yn cytuno. Mae cyfiawnder adferol yn rhoi cyfle i chi gael dweud eich dweud a chyfrannu at benderfyniadau am droseddau, ac yn galluogi troseddwr i wynebu canlyniadau'r hyn y maent wedi'i wneud. Fodd bynnag, efallai na fydd yn briodol ym mhob achos.

3. Mae cyfiawnder adferol yn gallu digwydd yn ystod achos troseddol neu ar ôl i'r achos troseddol ddod i ben, os yw ar gael. Os yw ar gael, caiff ei arwain gan hwylusydd cyfiawnder adferol wedi'i hyfforddi a fydd yn ystyried eich anghenion. Cymerir mesurau priodol i sicrhau bod unrhyw beth y cytunwch i gymryd rhan ynddo'n ddiogel. Os yw'r troseddwr wedi cyfaddef ei fod yn euog a'i fod yn fodlon cymryd rhan mewn cyfarfod neu gyfathrebu â chi, efallai y gallwch egluro i'r troseddwr sut y mae'r digwyddiad wedi effeithio arnoch. Gallwch yna benderfynu ceisio ymddiheuriad, neu gytuno ar weithgaredd y mae'n rhaid i'r troseddwr ei wneud fel rhan o unioni'r niwed sydd wedi'i wneud.

(ii) Dioddefwyr troseddau ieuentid

4. Os yw'r troseddwr dan 18 oed, mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan eich Tîm Troseddau Ieuentid:

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfiawnder adferol gwirfoddol os ydynt ar gael;
- Gofyn am gael gwybod am hynt achos y troseddwr os cytunwch i gymryd rhan mewn gweithgaredd cyfiawnder adferol;

- Gwybodaeth am wasanaethau priodol i ddioddefwyr os gofynnwch am fwy o gefnogaeth.
5. Cewch ofyn i'r heddlu beidio â rhoi eich manylion i Dîm Troseddau leuenctid os nad ydych yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfiawnder adferol.

Adran 8: Gwneud cais am ddigolledu

(i) Gwneud cais

1. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn talu dioddefwyr di-fai troseddau treisgar. Yr Awdurdod sy'n prosesu pob cais a wneir dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol, a ariennir gan y Llywodraeth. Y bwriad yw mai dim ond pan fetha popeth arall y dylid defnyddio'r Cynllun hwn. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i chi geisio cael eich digolledu gan yr unigolyn, neu unigolion, a achosodd eich anaf neu'ch colled. Fodd bynnag, os nad ydych yn gwybod pwy a'ch anafodd, neu os nad yw'r troseddwr yn gallu fforddio eich digolledu, mae gennych hawl i wneud hawliad yn unol â'r Cynllun.
2. Mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod:
 - Gwybodaeth glir ynglŷn ag a ydych yn gymwys i gael taliad yn unol â'r Cynllun;
 - Cadarnhad bod yr Awdurdod wedi derbyn eich cais;
 - Gwybodaeth am hynt eich cais ar gamau allweddol yn ystod eich hawliad drwy gyfrwng y dull cyfathrebu o'ch dewis;
 - Eglurhad clir o'r penderfyniad a wnaethpwyd am eich cais i gael eich digolledu;
3. Gallwch hefyd ofyn am gymorth ychwanegol i'ch helpu i gwblhau eich cais os oes angen. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gwblhau cais dros y ffôn, gwybodaeth ar fformat sy'n gweddu i'ch anghenion, megis Braille neu brint bras, a chymorth i gael gwybodaeth i ategu eich cais, megis gwybodaeth feddygol.
4. Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad a wnaethpwyd am eich cais am iawndal, mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod:
 - Gofyn am adolygiad o'r penderfyniad;
 - Gofyn am adolygiad effeithlon, teg a newydd wedi'i brosesu gan swyddog hawliadau gwahanol i'r swyddog a wnaeth y penderfyniad cyntaf;
 - Eglurhad clir o'r penderfyniad am yr adolygiad gan gynnwys pwyntiau a godwyd yn y cais am adolygiad;;
 - Gwybodaeth am yr hawl i apelio'r penderfyniad, gan gynnwys trefn apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol (THG – DAT) a'r terfynau amser cysylltiedig.
5. Yn ogystal â'r hawliau a amlinellir ym mharagraffau 2 a 3 uchod, **os ydych yn ddioddefwr sy'n agored i niwed neu'n cael eich bygwth**, mae gennych hawl i gael y canlynol gan yr Awdurdod:
 - Cymorth i gael gwybodaeth i ategu eich cais, megis tystiolaeth feddygol;

- Cymorth i gwblhau cais dros y ffôn;
- Cymorth gan sefydliad gwasanaethau cefnogi i gwblhau eich cais
- Gwybodaeth ar fformat sy'n ddigonol i'ch anghenion megis Braille neu brint bras.

(ii) Apeliadau i'r tribiwnlys haen gyntaf – digolledu am anafiadau troseddol

- Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol) sy'n delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol. Mae'r Tribiwnlys ar wahân i'r Awdurdod ac yn annibynnol arno.
- Ar ôl i chi gyflwyno apêl, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Derbyn llythyr gan y Tribiwnlys i gydnabod bod eich apêl wedi'i derbyn a llyfryn gwybodaeth i egluro beth fydd yn digwydd i'ch apêl;
 - Derbyn ymateb gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol gan gynnwys copïau o'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'ch achos o fewn 6 wythnos;
- Ar ôl derbyn yr ymateb hwn gan yr Awdurdod, bydd gennych gyfnod o 1 mis i gyflwyno unrhyw ddogfennau neu ddatleuon ychwanegol yr hoffech i'r Tribiwnlys eu hystyried.
- Mae gennych hefyd **hawl** i'r canlynol:
 - Derbyn rhybudd o amser, dyddiad a lleoliad eich gwrandawriad apêl rhwng 4 a 6 wythnos cyn y gwrandawriad gan y Tribiwnlys. Fel rheol, cynhelir y gwrandawriad yn y lleoliad mwyaf cyfleus i bawb sy'n bresennol. Ar yr un pryd, cewch recordiad DVD hefyd o wrandawriad Tribiwnlys nodweddiadol i roi mwy o wybodaeth i chi am yr hyn y galwch ei ddisgwyl;
 - Dod ag unrhyw dystion y credwch y gallant helpu eich achos i'r gwrandawriad, yn unol â disgresiwn y llys;
 - Tynnu eich apêl yn ôl unrhyw bryd cyn dechrau'r gwrandawriad – yn ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.
- Yn y gwrandawriad, fel rheol dywedir wrthyhych beth yw'r canlyniad a darperir Hysbysiad Penderfyniad i chi. Bydd hwn yn cadarnhau'r penderfyniad ond ni fydd yn rhoi rhesymau manwl.
- Ar ôl y gwrandawriad, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Gofyn i'r Tribiwnlys am y rhesymau am eu penderfyniad am eich apêl. Bydd angen i chi wneud y cais hwn o fewn 1 mis ar ôl y penderfyniad;
 - Gwneud cais i'r Awdurdod am ailagor eich achos ar sail feddygol ar ôl i Dribiwnlys wneud ei benderfyniad, os bu newid materol i'ch cyflwr meddygol;
 - Ceisio caniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad terfynol y Tribiwnlys drwy wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys (Cymru a Lloegr)

12. Yn y llythyr cyntaf a gewch gan y Tribiwnlys, gofynnir i chi a oes angen unrhyw gymorth arnoch i ategu eich apêl i ddiwallu eich anghenion penodol. Er enghraifft, gall y Tribiwnlys drefnu cyfieithydd i'ch cynorthwyo yn y gwrandawriad. Dylech gysylltu â'r Awdurdod os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch. Cewch gyngor hefyd am bwy i gysylltu â hwy i wneud y trefniadau hyn.

- Cwyno os ydych yn teimlo nad yw darparwr gwasanaeth wedi bodloni eich hawliau fel y'u hamlinellir yn y Cod;
- Derbyn cydnabyddiaeth amserol o'ch cŵyn;
- Derbyn ymateb llawn gan y darparwr gwasanaeth perthnasol o fewn cyfnod penodol;;
- Cyfeirio eich cŵyn at yr Ombwdsmon Seneddol drwy eich Aelod Seneddol os ydych yn dal i fod yn anfodlon.

Adran 9: Sut i gwyno

1. Rhaid i'r holl ddarparwr gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth a gwasanaethau i ddioddefwyr yn unol â'r Cod hwn (y rhai a restrir yn y Rhagarweiniad, paragraff 6) gydnabod a thrin dioddefwyr mewn modd parchus, sensitif a phroffesiynol heb wahaniaethu mewn unrhyw ffordd. Os ydynt yn methu â gwneud hynny, neu os ydynt yn methu â darparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol yn unol â'r Cod, mae gan ddioddefwr hawl i gwyno a chael sylw cyflym a llawn i'r gŵyn honno.

4. Os anfonwch eich cŵyn at y darparwr gwasanaeth anghywir, bydd y darparwr hwnnw'n ailgyfeirio eich cŵyn at y darparwr gwasanaeth perthnasol ac yn rhoi gwybod i chi.

Ombwdsmon Seneddol

2. Yn gyntaf, os teimlwch nad yw eich hawliau wedi'u bodloni neu fod unrhyw ddarparwr gwasanaeth wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau'n unol â'r Cod, dylech drafod eich cŵyn â'r unigolyn yr ydych wedi bod yn ymwneud ag ef yn y darparwr gwasanaeth. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, gallwch gwyno drwy drefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth dan sylw.

5. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb i'ch cŵyn a gawsoch drwy drefn gwyno fewnol darparwr gwasanaeth, gallwch gyfeirio eich cŵyn at yr Ombwdsmon Seneddol drwy eich Aelod Seneddol. Bydd yr Ombwdsmon Seneddol yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeirir ato gan ddioddefwyr drwy Aelod Seneddol ac yn cynnal ymchwiliad annibynnol pan fo'n briodol.

3. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- Ar gais, cael gwybodaeth gan y darparwr gwasanaeth am sut i gwyno, gan gynnwys manylion cyswllt, a'r broses ar gyfer ymdrin â chŵyn;

6. Mae gwybodaeth am gwyno wrth yr Ombwdsmon Seneddol ar gael ar-lein.¹³

¹³ Ychwanegir dolen we at fersiwn terfynol y Cod.

Rhan B:

Dyletswyddau Darparwyr Gwasanaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu'r wybodaeth, y cymorth a'r gwasanaethau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth eu darparu i ddioddefwyr troseddau sy'n oedolion a pherthnasau agos mewn profedigaeth i'w galluogi i gyflenwi'r hawliau a amlinellir yn yr adrannau blaenorol. Er mwyn osgoi amheuaeth, rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu'r hawliau fel y'u hamlinellir ym Mhennod 1, Rhan A.

Adran 1: Ymchwiliadau'r Heddlu

(i) Gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau i ddioddefwyr ac asesiadau o anghenion

1. Rhaid i'r **heddlu**:

- Asesu a yw dioddefwyr o fewn un o'r tri chategori â blaenoriaeth: dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth, gan ddilyn y profion a nodir yn y Rhagymadrodd;
- Atgyfeirio dioddefwyr sydd yn y tri chategori â blaenoriaeth yn awtomatig at wasanaethau i ddioddefwyr priodol o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am yr honiad, oni bai eu bod yn gofyn am beidio â chael eu hatgyfeirio felly;
- Peidio â darparu gwybodaeth am ddioddefwyr troseddau rhywiol neu drais domestig, neu fanylion perthnasau agos mewn profedigaeth, i wasanaethau i ddioddefwyr heb eu caniatâd penodol;

- Cyfeirio pob dioddefwr arall at wasanaethau i ddioddefwyr priodol o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl i ddioddefwr wneud cais am hynny;
 - Rhoi gwybod i ddioddefwyr y cânt ddewis cyfeirio eu hunain at wasanaethau i ddioddefwyr yn ddiweddarach a rhoi manylion cyswllt gwasanaethau i ddioddefwyr;
 - Egluro mesurau arbennig os ydynt yn briodol i ddioddefwyr o fewn y tri chategori â blaenoriaeth;
 - Rhoi taflen "gwybodaeth i ddioddefwyr troseddau" i'r holl ddioddefwyr, neu eu cyfeirio at wefan sy'n cynnwys yr un wybodaeth, cyn gynted â phosibl, a ddim mwy na 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r dioddefwr wneud honiad o ymddygiad troseddol. Rhaid i hyn gynnwys manylion cyswllt gwasanaethau i ddioddefwyr;
 - Egluro y gallai unrhyw ddatganiad tyst tystiolaethol a gymerir olygu y bydd rhaid i'r dioddefwr roi tystiolaeth yn y llys yn ddiweddarach.
2. Dylai'r **heddlu**, neu unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall sy'n gweithredu fel prif bwyt cyswllt yn yr achos, roi gwybod i ddioddefwyr sydd yn y tri chategori â blaenoriaeth fod therapi cyn treial ar gael os oes ei angen ac y caiff ei hwyluso ar gais. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth dan sylw hefyd gyfeirio dioddefwyr o fewn y tri chategori â blaenoriaeth at sefydliadau arbenigol os ydynt yn briodol ac ar gael.

(ii) Datganiad Personol Dioddefwr

3. Rhaid i'r **heddlu** gynnig cyfle i'r bobl ganlynol i wneud DPD::
 - Unrhyw ddioddefwr sy'n cwblhau datganiad tyst tystiolaethol;
 - Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth, pan fyddant yn riportio'r trosedd am y tro cyntaf;
 - Perthynas agos mewn profedigaeth;
 - Rhiant neu ofalwr i oedolyn agored i niwed neu ddioddefwr ifanc dan 18 oed oni bai yr ystyrir na fyddai hynny er pennaf les y plentyn neu'r oedolyn agored i niwed.
4. Caiff yr **heddlu** hefyd gynnig, neu gymryd, DPD mewn unrhyw achos arall os yw'n ymddangos yn briodol.
5. Gall yr **heddlu** drefnu i sefydliad sy'n cynnig gwasanaethau i ddioddefwyr neu asiantaeth cyfiawnder troseddol arall gymryd DPD neu ychwanegu at DPD sy'n bodoli, ond rhaid cymryd pob datganiad yn unol â gofynion adran 9 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967.
6. Rhaid i'r **heddlu** neu'r **darparwr gwasanaeth sy'n cymryd y datganiad** sicrhau y caiff ei anfon ymlaen i GEG. Rhaid i GEG sicrhau y tynnir sylw'r llys at unrhyw DPD a roddir.

Adran 2: Cyn Treial**Cyhuddo, Mechnïaeth ac Ar ôl Cyhuddo**

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 2 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt.

1. Rhaid i'r **heddlu** roi gwybod i ddioddefwyr am y canlynol o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y wybodaeth:
 - Unrhyw benderfyniad i erlyn yr unigolyn a amheuir;
 - Unrhyw benderfyniad i beidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir heblaw dan amgylchiadau lle mae GEG yn gwneud y penderfyniad ar ôl derbyn adroddiad cyn cyhuddo yn ystod ymgynghoriad â'r swyddog sy'n ymchwilio (yn yr achosion hyn, rhaid i GEG ddarparu'r wybodaeth hon);
 - Unrhyw benderfyniad i ddelio â'r unigolyn a amheuir â phenderfyniad y tu allan i'r llys.
2. Rhaid i'r **heddlu** hefyd roi gwybod i ddioddefwyr sut y gallant gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallant ddefnyddio eu hawl i geisio adolygiad o unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd i beidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir os ydynt yn anfodlon ag ef.
3. Rhaid i'r **heddlu** hefyd roi gwybod i ddioddefwyr am y canlynol o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y wybodaeth berthnasol:
 - Dyddiad a lleoliad y gwrandawriad cyntaf, os yw'n briodol, wedi i'r heddlu gael gwybod am gyhoeddi gwys i'r llys;
 - Unrhyw amodau mechnïaeth ac unrhyw newidiadau i amodau mechnïaeth, gan gynnwys os caiff yr unigolyn a

- amheuir ei ryddhau ar fechniaeth yr heddlu i ymddangos yn y llys, dyddiad y gwrandawriad llys, a'i ganlyniad, gyda rhesymau;
- Dyddiadau a lleoliadau unrhyw wrandawriadau remand, a'u canlyniad.
4. Rhaid i ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth, gael y wybodaeth a nodir ym mharagraffau 1 a 3 uchod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad. Rhaid rhoi'r wybodaeth hon i unrhyw ddioddefwyr eraill o fewn 5 diwrnod gwaith.
5. Rhaid i **GEG**:
- Rhoi gwybodaeth am benderfyniadau erlyn GEG i'r heddlu fel y gallant roi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniad yr erlynydd;
 - Rhoi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniad i wneud newid sylweddol i gyhuddiad(au) yn erbyn yr unigolyn a amheuir;
 - Rhoi eglurhad manylach i ddioddefwyr am benderfyniad y GEG i wneud newid sylweddol i gyhuddiad(au) os yw'r dioddefwr yn gofyn iddynt wneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai GEG egluro'r rhesymau am y penderfyniad yn ysgrifenedig ond rhaid rhoi cyfle i ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth i drafod y rhesymau am y penderfyniad â GEG os hoffent wneud hynny;
 - Mewn achosion lle mae GEG yn penderfynu nad oes angen darparu'r wybodaeth a restrir uchod, neu y byddai hynny'n amhriodol, rhaid iddynt gofnodi eu rhesymau am wneud hynny.

6. Rhaid i ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth, gael eglurhad o'r penderfyniadau ym mharagraff 5 uchod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad. Rhaid rhoi'r wybodaeth hon i ddioddefwyr eraill o fewn 5 diwrnod gwaith.

Gwybodaeth cyn treial

7. Rhaid i **GEG**:
- Rhoi eglurhad i ddioddefwyr am unrhyw benderfyniad gan GEG i beidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir ar ôl derbyn adroddiad cyn cyhuddo a luniwyd mewn ymgynghoriad â'r swyddog sy'n ymchwilio. Rhaid rhoi eglurhad i'r dioddefwyr hyn hefyd o sut y gallant ddefnyddio eu hawl i geisio adolygiad o'r penderfyniad os ydynt yn anfodlon ag ef;
 - Hysbysu dioddefwyr am unrhyw benderfyniad a wneir i atal achos. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i GEG egluro sut y gallant gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallant ddefnyddio eu hawl i geisio adolygiad o'r penderfyniad os ydynt yn anfodlon ag ef;
 - Cynnig cyfarfod â pherthnasau agos mewn profedigaeth ym mhob achos cymwys (gweler yr eirfa) cyn neu ar ôl penderfyniad gan GEG am gyhuddo unigolyn a amheuir neu beidio. Os penderfynir cyhuddo, rhaid i GEG egluro sut y mae'r achos yn debygol o fynd yn ei flaen, ateb unrhyw gwestiynau, trafod anghenion y dioddefwr a chytuno â'r dioddefwr pa mor aml y byddant yn cysylltu ag ef neu hi.

8. Rhaid i **GEG** hefyd:
- Rhoi'r rhestr o'r tystion sy'n mynd i'r llys i Unedau Gofal i Dystion cyn gynted ag y bydd yn derfynol fel y gallant hwy, neu mewn rhai achosion, yr heddlu os ydynt yn gweithredu fel un pwynt cyswllt i'r dioddefwr, roi gwybod i ddiodesfwr sy'n gorfod rhoi tystiolaeth;
 - Os yw'n briodol, ystyried gwneud cais am fesurau arbennig i'r llys a chofnodi canlyniad yr ystyriaeth honno;
 - Cynnig i berthnasau agos mewn profedigaeth gael cyfarfod â'r erlynydd neu'r bargyfreithiwr a fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Fel rheol, cynhelir y cyfarfod hwn yn fuan cyn y treial.
9. Mae'r paragraff hwn yn amlinellu'r dyletswyddau y mae'n rhaid i'r Uned Gofal i Dystion berthnasol eu darparu i ddiodesfwr. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu ddarparu'r wybodaeth yn y paragraff hwn i ddiodesfwr yn eu lle, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodesfwr. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth ddiodesfwr os yw hyn yn berthnasol iddynt a chytuno â'r Uned Gofal i Dystion pa rai o'r gwasanaethau canlynol y byddant yn eu darparu. Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** berthnasol:
- Rhoi gwybod i'r holl ddiodesfwr o fewn 4 diwrnod gwaith ar ôl derbyn, ac o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl derbyn ar gyfer diodesfwr sydd yn y tri chategori â blaenoriaeth, os cyhoeddir gwarant arestio ar gyfer unigolyn a amheuir a fethodd fod yn bresennol yn y llys ac os yw wedi cael ei arestio ar ôl i'r warant gael ei chyhoeddi;
 - Rhoi gwybod i ddiodesfwr am ddyddiad, lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawriad llys troseddol ddim mwy nag 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth hon gan y llys;
 - Ar ôl ple dieuog, trafod unrhyw anghenion sydd gan y diodesfwr a chyfeirio'r diodesfwr at wasanaethau i ddiodesfwr pan fo'n briodol;
 - Hysbysu diodesfwr sy'n gorfod mynd i'r llys i roi tystiolaeth o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael yr hysbysiad gan GEG a rhoi gwybod iddynt beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut y gallant gael taflen "Tyst yn y Llys";
 - Cynnig asesiad llawn o anghenion y diodesfwr hynny sy'n gorfod mynd i'r llys i roi tystiolaeth i asesu pa gymorth y gallai fod ei angen arnynt;
 - Rhoi gwybod i ddiodesfwr am ganlyniad ceisiadau am fesurau arbennig;
 - Trefnu bod perthnasau agos mewn profedigaeth, mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa), nad ydynt yn dystion yn yr achos yn cael ymweld â'r llys cyn y treial os dymunant.
10. Rhaid i **staff llysoedd GLITEM** sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod Unedau Gofal i Dystion yn cael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniadau canlynol ar gyfer diodesfwr y troseddau mwyaf difrifol, diodesfwr sy'n cael eu targedu'n gyson neu ddiodesfwr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth (mewn achosion lle mae staff y llys wedi cael gwybod bod yr achos yn cynnwys diodesfwr yn y categorïau hyn), ac o fewn 3 diwrnod gwaith mewn achosion sy'n cynnwys unrhyw dystion eraill:
- Dyddiadau llys ar gyfer pob gwrandawriad;
 - Canlyniad gwrandawiadau mechnïaeth a remand a cheisiadau am fesurau arbennig;
 - Gohirio gwrandawiadau a drefnwyd, cyn neu ar ôl eu cychwyn.

Adran 3: Treial

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 3 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt.

1. Rhaid i **staff llys GLITEM** sicrhau, pryd bynnag y bo'n bosibl:
 - Bod unrhyw fesurau arbennig sydd eu hangen ar ddiodefwyr ar gael iddynt os yw'r llys wedi cytuno i'w defnyddio;
 - Bod diodefwyr yn eistedd mewn man aros ar wahân i'r unigolyn a amheuir;
 - Nad oes rhaid i ddiodefwyr sy'n rhoi tystiolaeth aros am fwy na dwy awr;
 - Eu bod yn cymryd manylion cyswllt yr holl ddiodefwyr sy'n dystion er mwyn eu galluogi i adael safle'r llys a chael clywed ganddynt os oes angen;
 - Bod pwynt cyswllt i ddiodefwyr fel y gallant gael gwybod beth sy'n digwydd yn eu hachos tra mae'n cael ei wrando yn y llys.
2. Rhaid i **GEG**:
 - Pan fo amgylchiadau'n caniatáu, cyflwyno eu hunain i ddiodefwyr ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am broses y llys. Rhaid iddynt hefyd ddynodi, os yw'n bosibl, pa mor hir y gallai fod rhaid i ddiodefwyr aros cyn rhoi tystiolaeth;
 - Os yw'n bosibl, egluro unrhyw oediad yn yr achos a dweud wrth y diodefwyr pa mor hir y mae'n debygol y bydd yn aros;
 - Cynnig cyfarfod â pherthnasau agos mewn profedigaeth os yw'r troseddwr wedi cael collfarn i gadarnhau bod DPD wedi'i wneud neu i gadarnhau ei fod yn gyfredol. Fel rheol, cynhelir y cyfarfod hwn yn y llys.

3. Ar ôl y treial, rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** hysbysu diodefwyr am ganlyniad gwrandawriad y treial o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan y llys, a rhaid iddynt gyfeirio diodefwyr at wasanaethau i ddiodefwyr pan fo'n briodol ac os ydynt ar gael. Os yw'r heddlu'n gweithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr, ac yn cytuno â'r Uned Gofal i Dystion y byddant yn darparu'r wybodaeth hon i ddiodefwyr yn eu lle, rhaid iddynt ddweud wrth y diodefwyr y byddant yn gwneud hynny.
4. Ar ôl y treial, rhaid i **GEG** dalu unrhyw gostau y mae GEG wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i'r diodefwyr ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y ffurflen hawlio wedi'i llenwi'n gywir ¹⁴.
5. Rhaid i GEG gynnig cyfarfod â pherthnasau agos mewn profedigaeth, ym mhob achos cymwys (gweler yr eirfa), mewn achosion sy'n diweddu mewn rhyddfarn neu gollfarn am gyhuddiad llai difrifol. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd rai wythnosau ar ôl diwedd yr achos.

Adran 4: Penderfyniadau Dedfrydu

1. Rhaid i Unedau Gofal i Dystion a GEG sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 4 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu gytuno â'r Uned Gofal i Dystion i ddarparu'r wybodaeth yn yr adran hon i ddiodefwyr yn eu lle, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth ddiodefwyr os yw hyn yn digwydd.

¹⁴ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Erllyn y Goron (Lwfansau Tystion ac ati) 1988.

2. Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** hysbysu dioddefwyr am y ddedfryd a roddwyd i'r unigolyn a amheuir os caiff gollfarn o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan y llys. Rhaid i hyn gynnwys eglurhad byr o ystyr ac effaith y ddedfryd.
3. Os na all **Unedau Gofal i Dystion** ateb y cwestiynau y mae'r dioddefwr yn eu gofyn, dylent gyfeirio'r dioddefwr at GEG.
4. Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** hysbysu dioddefwyr am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddedfryd wreiddiol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth hon gan y llys.
5. Os yw unigolyn a amheuir yn cael collfarn, rhaid i **GEG** ateb unrhyw gwestiwn sydd gan y dioddefwr am y ddedfryd os yw'r Uned Gofal i Dystion wedi cyfeirio'r dioddefwr at GEG.
6. Rhaid i **GEG** hefyd gynnig cyfarfod â pherthnasau agos mewn profedigaeth ar ôl gwrandawriad y ddedfryd i egluro'r ddedfryd a roddwyd.

Adran 5: Apeliadau

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 5 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu gytuno ag Uned Gofal i Dystion i ddarparu'r wybodaeth berthnasol i ddioddefwyr yn eu lle, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddioddefwyr. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth ddioddefwyr os yw hyn yn digwydd.

(i) Os gwneir cais i Lys y Goron i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon.

1. Rhaid i **staff Llys y Goron** sicrhau eu bod yn hysbysu Unedau Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl derbyn apêl yn erbyn collfarn neu ddedfryd, ac o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl canlyniad yr apêl. Yna, rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** hysbysu'r dioddefwr am y datblygiadau hyn, gan gynnwys dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriadau, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn.
2. Rhaid i **staff Llys y Goron** hefyd sicrhau, pryd bynnag y bo'n bosibl, eu bod:
 - Yn darparu pwynt cyswllt i'r dioddefwr yn ystod oriau gwaith arferol;
 - Yn darparu cyfleusterau aros ac eistedd priodol fel yr amlinellir ym Mhennod 1, Rhan A, Adran 5(i), paragraff 2, gan gynnwys cyfleusterau ar wahân i ddioddefwyr a'u teulu a'u ffrindiau os oes rhai ar gael.

(ii) Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apêl i'r Goruchaf Lys mewn Achos Troseddol i ymwneud â phwynt cyfreithiol.

3. Rhaid i GEG sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, eu bod yn enwi'r Uned Gofal i Dystion gywir i'r Swyddfa Apeliadau Troseddol o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais i wneud hynny.
4. Ar ôl cael hysbysiad bod yr apelydd wedi cael hawl i apelio, rhaid i GEG gynnig cyfarfod â pherthnasau agos mewn profedigaeth, ym mhob achos cymwys (gweler yr eirfa), i egluro natur yr apêl a phrosesau'r llys.

5. Rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol a Swyddfa'r Goruchaf Lys** sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, eu bod yn hysbysu'r Uned Gofal i Dystion ar yr un pryd ag y maent yn hysbysu'r apelydd pan roddwyd caniatâd i apelio, pan bennir dyddiad gwrandawriad neu pan wneir newid i ddyddiad gwrandawriad a phan fydd canlyniad yr apêl yn hysbys.

Goruchaf Lys am newidiadau i ddyddiadau gwrandawriadau neu pan fyddant yn gwybod canlyniad yr apêl, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** hysbysu dioddefwyr o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyfathrebu.
6. Rhaid i staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol hefyd hysbysu'r Uned Gofal i Dystion am y penderfyniad i ryddhau apelydd ar fechniaeth cyn apêl o fewn 1 diwrnod gwaith.
7. Pan gânt wybodaeth bod caniatâd i apelio wedi'i roi gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Swyddfa'r Goruchaf Lys, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** hysbysu'r holl ddiodefwyr a thîm cysylltu â diodefwyr yr ymddiriedolaeth prawf. Rhaid i ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth gael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyfathrebu.
8. Rhaid hysbysu unrhyw ddiodefwyr eraill ar ôl cael hysbysiad bod caniatâd i apelio wedi'i roi a bydd gwrandawriad ar fformat penodedig yn digwydd o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn.
9. Rhaid hysbysu unrhyw ddiodefwyr eraill hefyd am yr hysbysiad o ddyddiad y gwrandawriad o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl pennu dyddiad y gwrandawriad. Wrth roi'r wybodaeth hon, rhaid i'r Uned Gofal i Dystion hefyd sicrhau bod diodefwyr yn ymwybodol o wasanaethau i ddiodefwyr pan fo'n briodol a phan fyddant ar gael.
10. Pan gânt wybodaeth gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Swyddfa'r
11. Ar ôl cael gwybodaeth gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol y caiff apelydd ei ryddhau ar fechniaeth cyn yr apêl, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** hysbysu pob diodefwyr o fewn 1 diwrnod gwaith.
12. Rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol a Swyddfa'r Goruchaf Lys** hefyd sicrhau eu bod:
 - Yn darparu pwynt cyswllt i'r diodefwyr yn ystod oriau gwaith arferol;
 - Yn darparu cyfleusterau aros ac eistedd priodol fel yr amlinellir ym Mhennod 1, Rhan A, Adran 5(ii), paragraff 3, gan gynnwys cyfleusterau ar wahân i ddiodefwyr a'u perthnasau agos os oes rhai ar gael;
 - Yn darparu copi o ddyfarniad y Llys wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi i un o ddiodefwyr yr achos, neu eu perthnasau agos, ar gais
13. Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** sicrhau, pryd bynnag y bo'n bosibl, eu bod:
 - Yn rhoi gwybod i staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu'r Goruchaf Lys am unrhyw newid i'w manylion cyswllt neu i bwynt derbyn hysbysiadau sy'n ymwneud â'r Uned Gofal i Dystion;
 - Os yw **Uned Gofal i Dystion** yn derbyn hysbysiad am apêl ond nad yw'n gyfrifol am yr achos, rhaid iddynt hysbysu staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu'r Goruchaf Lys ac anfon unrhyw hysbysiadau ymlaen i'r Uned Gofal i Dystion berthnasol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr hysbysiad.

Adran 6: Ar ôl Treial

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 6 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt.

(i) Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

1. Wrth gynnal adolygiad, rhaid i'r **Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol** asesu'r effaith bosibl ar y dioddefwr a phenderfynu a ddylid ei hysbysu am yr adolygiad hwnnw. Rhaid i'r Comisiwn gofnodi'r rhesymau am eu penderfyniadau o ran sut i gysylltu â'r dioddefwr, ac mewn achosion priodol, byddant yn rhoi gwybod i'r heddlu am y penderfyniadau hynny.
2. Os yw'r **Comisiwn** yn penderfynu ei bod yn briodol cysylltu â'r dioddefwr yn ystod yr adolygiad, rhaid i'r Comisiwn roi gwybod i'r dioddefwr eu bod wedi derbyn cais a bod y cais hwnnw'n destun adolygiad. Ar ôl yr adolygiad, bydd y **Comisiwn** yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r gollfarn neu'r ddedfryd i'r llysoedd, a rhaid iddynt roi gwybod i'r dioddefwr am eu penderfyniad oni bai ei fod wedi gofyn yn benodol am beidio â chael gwybod.

(ii) Cyswllt dieisiau gan droseddwr

3. Rhaid i'r **Gwasanaeth Carchardai** gynnal llinell gymorth ffôn (y Llinell Gymorth Dioddefwyr) i sicrhau bod gan ddioddefwyr rif i'w ffonio os cânt gyswllt dieisiau gan garcharor.

4. Os caiff cyswllt dieisiau ei riportio i'r **ymddiriedolaeth prawf**, rhaid iddynt:
 - Hysbysu'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr os gwnaethpwyd y cyswllt hwn gan garcharor drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, gan roi cyfeiriad gwe proffil defnyddiwr y troseddwr;
 - Hysbysu'r carchar lle mae'r carcharor yn cael ei gadw os bu unrhyw gyswllt gan garcharor â dioddefwr, er mwyn i'r carchar allu ymchwilio i hyn;
 - Ystyried a yw troseddwr wedi torri amodau ei drwydded os bu unrhyw gyswllt gan droseddwr â dioddefwr tra'r oedd y troseddwr ar drwydded.

(iii) Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

5. Rhaid i'r **heddlu** neu **Swyddog Cyswllt Teuluol** basio manylion y dioddefwr i'r ymddiriedolaeth prawf mewn achosion lle mai hwy yw prif gyswllt y dioddefwr a lle mae'r dioddefwr wedi penderfynu cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.
6. Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion**, neu'r **Tîm Troseddau Ieuencid** os ydynt yn goruchwyllo troseddwr dan 18 oed, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan y llys:
 - Hysbysu dioddefwyr sy'n gymwys i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr am y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr;
 - Cyfeirio manylion y dioddefwr hyn i'r ymddiriedolaeth prawf o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl diwedd y cyfnod lle caiff dioddefwyr ddewis peidio â chyfeirio eu manylion er mwyn iddynt gael cynnig cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.

7. Rhaid cwblhau'r ddau gam hyn o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion gael gwybod am y ddedfryd gan y llys. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu gytuno â'r Uned Gofal i Dystion i ddarparu'r wybodaeth berthnasol i ddiodefwyr yn eu lle, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth ddiodefwyr os yw hyn yn digwydd.
 8. Rhaid i'r **ymddiriedolaeth prawf**:
 - Cysylltu â diodefwyr troseddwr sy'n cael dedfryd o 12 mis neu hwy, neu'n cael eu cadw mewn ysbyty diogel yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983, ar ôl cael collfarn am drosedd treisgar neu rywiol i gynnig iddynt gymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, oni bai eu bod wedi dweud yn benodol wrth yr Uned Gofal i Dystion nad ydynt am i'w manylion gael eu cyfeirio;
 - Neilltuo Swyddog Cyswllt Dioddefwyr i ddiodefwyr sy'n dewis cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr;
 - Rhoi gwybodaeth i ddiodefwyr am gamau allweddol yn nedfryd y troseddwr wedi iddynt benderfynu cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr;
 - Mewn achosion sy'n ymwneud â Throseddwr sy'n Ddinasyddion Tramor, cydweithio â'r awdurdodau mewnfudo i sicrhau y caiff gwybodaeth am statws mewnfudo'r carcharor ac unrhyw wybodaeth am ei allgludo ei phasio i ddiodefwyr;
 - Cael gwybod a hoffai'r diodefwr gael gwybod am amodau trwydded neu amodau rhyddhau a/neu wneud sylwadau amdanynt, a phasio eu barn i'r rheini sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad;
 - Hysbysu'r diodefwr am amodau trwydded neu amodau rhyddhau perthnasol, a'r dyddiad y bydd unrhyw gyfyngiadau neu amodau'n dod i ben;
 - Cynnig y gwasanaethau a amlinellir uchod i berthynas agosaf y diodefwr, ac i berthnasau eraill mewn profedigaeth os yw'r ymddiriedolaeth prawf yn ystyried bod hyn yn briodol;
 - Cynnig y gwasanaethau a amlinellir uchod i riant, gwarcheidwad neu ofalwr diodefwr sydd dan 18 oed, sy'n oedolyn agored i niwed, neu sy'n methu â chymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr am reswm arall, cyn belled â bod hynny er pennaf les y diodefwr.
 9. Rhaid i'r **gwasanaeth carchardai**:
 - Sicrhau bod unrhyw amodau cymeradwy sy'n ymwneud â'r diodefwr wedi'u cynnwys ar drwydded rhyddhau'r troseddwr, a sicrhau y caiff yr ymddiriedolaeth prawf wybod am y wybodaeth hon.
- (iv) Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr**
10. Os yw diodefwr wedi dewis bod yn rhan o'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr ac y bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu am ryddhau neu drosglwyddo'r troseddwr dan sylw, rhaid i'r **ymddiriedolaeth prawf**:
 - Rhoi gwybod i'r diodefwr pan geir hysbysiad bod gwrandawriad Bwrdd Parôl yn debygol o ddigwydd, a rhoi gwybod i'r diodefwr pan bennir dyddiad y gwrandawriad;
 - Rhoi gwybodaeth i ddiodefwyr am y DPD a'r Bwrdd Parôl, a chymryd pob cam rhesymol i ganfod a yw diodefwr yn dymuno gwneud DPD;

¹⁵ Fel y'u diffinnir yn adran 45 (2) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

- Anfon y DPD ymlaen mewn pryd i banel y Bwrdd Parôl ei ystyried;
- Anfon unrhyw gais i beidio â datgelu'r DPD ymlaen i Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i sicrhau na chaiff y dioddefwr ei erlid eto, yn enwedig dioddefwyr cam-drin neu drais domestig neu rywiol.

(ii) Dioddefwyr troseddau ieuentid

11. Rhaid i'r **Bwrdd Parôl**:

- Ystyried unrhyw sylwadau gan ddiodefwyr am amodau trwydded ac adlewyrchu'r ystyriaethau hyn yn eu penderfyniad;
- Os yw'r dioddefwr wedi gofyn am amod trwydded ac nad yw wedi'i chynnwys ar drwydded rhyddhau'r troseddwr, rhoi eglurhad am beidio â'i chynnwys;
- Darllen DPD os gwneir un;
- Ystyried ceisiadau gan y dioddefwr os hoffai fod yn bresennol mewn gwrandawriad llafar;
- Ystyried unrhyw wybodaeth am y dioddefwr â chysylltiad uniongyrchol â'r risg y mae'r troseddwr yn ei beri ar hyn o bryd, ac adlewyrchu hyn yn eu penderfyniad.

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 7 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt.

(i) Dioddefwyr troseddwr sy'n oedolion

1. Rhaid i'r **heddlu**:

- Pan fo'n briodol, cynnig gwybodaeth am gyfiawnder adferol i ddiodefwyr, neu eu cyfeirio ati, gan gynnwys sut y gallant gymryd rhan, ac asesu addasrwydd yn seiliedig ar sensitifrwydd penodol yr achos a/neu ba mor agored i niwed yw'r dioddefwr;

2. Rhaid i **Dimau Troseddau Ieuentid**:

- Ystyried a ddylid gwahodd y dioddefwr i weithgaredd cyfiawnder adferol;
- Cadw data personol dioddefwr yn ddiogel ac ar wahân i ddata am droseddwr;
- Pan fydd dioddefwr yn cysylltu â hwy, egluro swyddogaeth y Tîm Troseddau Ieuentid i alluogi dioddefwr i wneud dewis doeth a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfiawnder adferol ai peidio;
- Ystyried pryd mae'n amhriodol cynnig cyfiawnder adferol i ddiodefwyr ac ystyried sensitifrwydd penodol yr achos a/neu ba mor agored i niwed yw'r dioddefwr;
- Sicrhau diogelwch dioddefwr drwy ddarparu pob mesur diogelu sydd ei angen drwy gydol y broses o baratoi am y gweithgaredd cyfiawnder adferol a'r gweithgaredd ei hun;
- Sicrhau y darperir hyfforddiant priodol i staff sy'n gweithio gyda diodefwyr;
- Ar gais, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddiodefwyr am hynt yr achos a rhoi gwybod iddynt pan ddaw'r gweithgaredd i ben;
- Rhoi gwybodaeth i ddiodefwyr am wasanaethau priodol i ddiodefwyr os gofynnant am fwy o gefnogaeth pan fyddant yn ymwneud â gweithgaredd cyfiawnder adferol.

3. Rhaid i'r **heddlu** roi manylion cyswllt y dioddefwr i'r Tîm Troseddau leuenctid i'w alluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfiawnder adferol, oni bai y gofynnir iddynt beidio â gwneud hynny.

Adran 8: Digolledu

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 8 Pennod 1 y maent yn gyfrifol amdanynt.

(i) Gwneud cais

1. Rhaid i'r **Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol**:
 - Darparu'r hawliau a nodir ym Mhennod 1, adran 8, paragraffau 2-4.
 - Ymateb i bob gohebiaeth ysgrifenedig ynglŷn â chais o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl ei derbyn;
 - Rhoi ymateb i apêl i'r apelydd a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol (THG – DAT) o fewn 42 diwrnod ar ôl i'r THG – DAT hysbysu'r Awdurdod bod apêl wedi'i chyflwyno.

(ii) Apeliadau i'r tribiwnlys haen gyntaf – digolledu am anafiadau troseddol

2. Rhaid i staff gweinyddol y **Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol)**:
 - Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i apelwyr am drefn apeliadau drwy gynhyrchu deunydd canllaw a'i ddiweddarau, gan gynnwys llyfryn gwybodaeth i egluro'r broses apelio;

- Ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gais, megis trefnu cyfieithydd yn y gwrandawriad, a rhoi cyngor am bwy i gysylltu â hwy i wneud trefniadau o'r fath;
- Ymateb i bob gohebiaeth gan hawlwyf ynglŷn ag achosion apeliadau'n unol â'r Cynllun ag angen ymateb, ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y derbyniodd y Tribiwnlys yr ohebiaeth;
- Hysbysu pob hawlydd am amser, dyddiad a lleoliad eu gwrandawriad apêl rhwng pedair a chwe wythnos cyn y gwrandawriad. Ar yr un pryd, dylent anfon DVD at yr hawlydd yn cynnwys recordiad o wrandawriad Tribiwnlys nodweddiadol;
- Ymateb i bob cais am resymau llawn y Tribiwnlys am benderfyniad, o fewn 1 mis ar ôl derbyn cais o'r fath.

3. Rhaid i'r **Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol** anfon llythyr at yr apelydd sy'n cynnwys copïau o'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'w achos o fewn chwe wythnos. Rhaid iddynt hefyd ystyried unrhyw geisiadau am ailagor achos ar sail feddygol ar ôl i'r Tribiwnlys wneud eu penderfyniad, os bu newid materol i gyflwr meddygol y dioddefwr.

Adran 9: Cwynion

Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth isod sicrhau eu bod yn darparu'r hawliau yn Adran 9 Pennod 1 pan fyddant yn derbyn cŵyn.

1. Rhaid i **Ddarparwyr Gwasanaeth** fod â phroses cwynion glir y gall dioddefwyr ei defnyddio i gwyno os nad yw'r hawliau sydd ganddynt yn unol â'r cod wedi'u bodloni.

2. Ar gais gan y dioddefwr, rhaid i bob **darparwr gwasanaeth** ddarparu gwybodaeth i'r dioddefwr am ei drefn gwyno. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi manylion cyswllt clir ar lefel leol a, phan fo'n briodol, ar lefel genedlaethol i ddioddefwyr sy'n ymholi neu'n cwyno, a'u cyfathrebu i ddioddefwyr ar gais.
3. Rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n derbyn y gŵyn sicrhau yr anfonir cydnabyddiaeth amserol at y dioddefwr.
4. Os yw **darparwr gwasanaeth** (y darparwr cychwynnol) yn derbyn cŵyn y dylid bod wedi'i hanfon at ddarparwr gwasanaeth gwahanol, y darparwr cychwynnol sy'n gyfrifol am gyfeirio'r gŵyn at y darparwr gwasanaeth priodol i ymateb iddi. Mae'r darparwr cychwynnol yn dal i fod yn gyfrifol am y gŵyn nes i'r darparwr gwasanaeth priodol gymryd cyfrifoldeb am y gŵyn.
5. Bydd y **darparwr gwasanaeth** sy'n delio â'r gŵyn yn dangos parch a sensitifrwydd wrth wneud hynny. Rhaid iddo ddarparu ymateb llawn ac amserol sy'n rhoi gwybod i ddioddefwyr am ganlyniad eu cŵyn. Rhaid darparu'r ymateb mewn iaith a fformat y gall dioddefwyr eu deall.

Pennod 2

Rhan A:

Hawliau Plant a Phobl Ifanc

1. Mae'r adran hon yn dweud wrthy ch pa wybodaeth, cymorth a gwasanaethau y dylech eu derbyn gan y system cyfiawnder troseddol os ydych dan 18 oed ac yn ddiodefwyr trosedd.
2. Efallai y caiff eich rhiant neu warcheidwad gymorth a chefnogaeth hefyd, oni bai eu bod dan amheuaeth mewn cysylltiad â'r trosedd neu yr ystyrir na fyddai hynny er eich pennaf les chi.

Sut y dylwn ddarllen y rhan hon o'r Cod?

3. Gallwch ddefnyddio'r adran hon i ddilyn eich taith drwy'r broses cyfiawnder troseddol a chanfod pa wasanaethau y dylech eu derbyn ar bob cam. Mae dwy ran i'r adran hon. Mae'r rhan gyntaf wedi'i hysgrifennu i chi ac mae'n dangos pa wybodaeth, cymorth a gwasanaethau y dylech fod yn eu derbyn. Mae'r ail ran wedi'i hysgrifennu i sefydliadau, megis yr heddlu, a ddylai fod yn rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth dan sylw i chi.

Adran 1: Ymchwiliadau'r Heddlu

Gwybodaeth a ddarperir i chi wrth i chi riportio trosedd

4. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - Eglurhad clir o'r hyn sy'n digwydd pan fyddwch yn riportio trosedd i'r heddlu;

- Taflen o wybodaeth i ddiodefwyr trosedd, neu fanylion gwefan sy'n cynnwys y wybodaeth hon, o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl riportio'r trosedd. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am bobl y gallwch siarad â hwy os ydych yn anhapus a bod angen cefnogaeth arnoch chi;
- Siarad â'r heddlu i'ch helpu i benderfynu pa fath o gefnogaeth sydd ei angen arnoch;
- Cael eich manylion cyswllt wedi'u hanfon at wasanaethau i ddiodefwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl riportio'r trosedd oni bai y gofynnwch i'r heddlu beidio â gwneud hynny. Byddant yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi pa gefnogaeth sydd ar gael i chi.

Ymchwiliadau'r Heddlu

5. Ymchwiliad heddlu yw pan fydd yr heddlu'n chwilio am dystiolaeth a phobl i'w hamau o'r trosedd rydych chi wedi dweud wrthynt amdano.
6. Pan ddywedwch wrth yr heddlu bod trosedd wedi digwydd, efallai y bydd gofyn i chi ddweud wrth yr heddlu beth ddigwyddodd mewn cyfweiliad. Gelwir hyn yn ddatganiad tyst. Pan rowch eich datganiad tyst i'r heddlu, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- Gofyn i'r heddlu am i rywun fod gyda chi wrth i chi roi eich datganiad tyst;
 - Gofyn am rywun i'ch helpu i ddeall y cwestiynau a ofynnir i chi;
 - Cael eich datganiad wedi'i recordio ar fideo fel nad oes rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu beth ddigwyddodd i chi'n amlach nag sydd angen;
 - Cael gwybod am fesurau arbennig (gweler yr eirfa) pe bai'n rhaid i chi fynd i'r llys.
7. Mae gennych hefyd **hawl** i'r canlynol:
- Gwneud Datganiad Personol Dioddefwr. Nid yw hwn yr un fath â'r datganiad tyst. Mae'r Datganiad Personol Dioddefwr yn gyfle i chi egluro yn eich geiriau eich hun sut yr ydych yn teimlo am y trosedd. Gall hwn hefyd gael ei recordio ar fideo pan fo'n briodol. I gael mwy o wybodaeth am y Datganiad Personol Dioddefwr, gweler Pennod 1, Rhan A, Adran 1 (ii).
8. Wrth i'r heddlu ymchwilio i'ch achos, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
- Cael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd a chael gwybod gan yr heddlu pa mor aml y byddant yn cysylltu â chi i ddweud wrthych beth sy'n digwydd;
 - Cael gwybod os nad oes neb wedi'i amau, neu os caiff yr achos ei gau, ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau;
 - Cael gwybod os caiff rhywun ei arestio, ei gyfweld neu ei ryddhau gan yr heddlu mewn cysylltiad â'ch achos, ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i hynny ddigwydd;
 - Cael gwybod os caiff unigolyn a amheuir yn yr achos ei ryddhau ar fechniaeth, neu os yw amodau mechniaeth yn newid.
9. Mae gennych **hawl** i'r canlynol ar unrhyw bryd yn ystod yr ymchwiliad a'r treial:
- Siarad â rhywun sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i wrando arnoch a'ch helpu i ymdopi â'r trosedd. Gellir galw hyn yn therapi neu'n gynghori.
- Adran 2: Cyn y treial (Cyhuddo, Mechniaeth a Gwybodaeth am y treial)**
- Cyhuddo a Mechniaeth**
10. Mae'r adran hon yn dweud wrthych beth sy'n digwydd pan gaiff yr unigolyn a amheuir ei gyhuddo o gyflawni'r trosedd. Bydd cyhuddiad yn digwydd pan geir digon o dystiolaeth i fynd â'r unigolyn a amheuir i'r llys, a'i bod er budd i'r cyhoedd i wneud hynny.
11. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:
- Cael gwybod a yw'r unigolyn a arestiwyd (unigolyn a amheuir) yn mynd i gael ei erlyn ai peidio, ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau;
 - Cael gwybod os yw'r heddlu'n dymuno gwneud cais am remandio'r unigolyn a amheuir yn y ddalfa, dyddiad unrhyw wrandawriad a chanlyniad y gwrandawriad;
 - Cael gwybod sut y gallwch gael mwy o wybodaeth am benderfyniad i beidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir a sut y gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydych yn fodlon ag ef;
 - Cael gwybod os yw'r System Cyfiawnder Troseddol yn mynd i wneud penderfyniad ffurfiol am yr unigolyn a amheuir heb orfod mynd i'r llys. Yr enw ar hyn yw 'penderfyniad y tu allan i'r llys'. Efallai y gofynnir i chi neu eich rhieni neu warcheidwaid am eich barn am hyn, a bydd hynny'n helpu i benderfynu a yw hyn yn addas;

- Cael gwybod os caiff unigolyn a amheuir ei ryddhau gydag amodau mechniaeth, ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl y rhyddhau. Cewch hefyd gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am hyn;
- Cael gwybod os caiff mechniaeth heddlu ei newid neu ei chanslo o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl y newid, ynghyd ag eglurhad o'r rhesymau.
- Dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiadau cyn treial, beth ddigwyddodd yn y llys a beth ddylai ddigwydd nesaf. Cewch wybod hefyd beth mae hyn yn ei olygu i chi a beth mae angen i chi ei wneud;
- A gaiff yr unigolyn a amheuir ei ryddhau ar fechniaeth neu ei remandio yn y ddalfa, a beth yw ystyr hyn;
- Os cyhoeddir gwarant arestio gan fod yr unigolyn a amheuir wedi methu â bod yn bresennol yn y llys pan ofynnwyd iddo wneud hynny, neu os caiff yr unigolyn a amheuir ei arestio eto.

Paratoi am y treial

12. Mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- Cael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl penderfyniad gan GEG i atal achos. Mae gennych hawl i gael gwybod sut y gallwch gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydych yn fodlon ag ef;
- Cael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl penderfyniad gan GEG i wneud newidiadau mawr i'r cyhuddiadau yn erbyn yr unigolyn a amheuir.

13. Mae'r ddau baragraff nesaf, paragraffau 14 a 15, yn rhoi gwybodaeth i chi am wasanaethau y mae gennych hawl i'w cael gan yr Uned Gofal i Dystion. Weithiau, bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth hon i chi yn eu lle os mai hwy yw eich prif bwynt cyswllt. Bydd yr heddlu'n dweud wrthyf os mai hwy yw eich prif bwynt cyswllt.

14. Mae gennych **hawl** i gael gwybod am y canlynol gan yr Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion dderbyn y wybodaeth gan y llys:

15. Os gofynnir i chi fynd i'r llys i roi tystiolaeth yn y treial, bydd eich Uned Gofal i Dystion yn gwneud yn siŵr eich bod yn deall beth fydd yn digwydd a'ch bod yn cael cefnogaeth i fynd i'r llys. Byddant hefyd yn egluro'r mesurau arbennig sydd ar gael i'ch cynorthwyo i roi eich tystiolaeth.

16. Mae gennych hefyd **hawl** i'r canlynol:

- Gweld eich datganiad wedi'i recordio ar fideo neu wedi'i ysgrifennu ychydig cyn y treial i'ch helpu i gofio beth ddywedoch chi wrth yr heddlu am yr hyn a ddigwyddodd i chi;
- Cael gwybod sut y gallwch gael y Pecyn Tystion Ifanc sy'n rhoi gwybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd pan ewch i'r llys;
- Mynd i ymweld â'r llys cyn y treial i weld yr ystafell llys ac ymarfer defnyddio'r cyfarpar mesurau arbennig (e.e. dolenni fideo neu sgriniau o amgylch y blwch tystion). Os yw'n bosibl, cewch gyfarfod â'r staff a fydd yn eich helpu ar y diwrnod.

17. Os yw'r unigolyn a amheuir yn pledio'n ddiuog, mae gennych **hawl** i siarad am unrhyw anghenion sydd gennych a chael eich cyfeirio at wasanaethau i ddiodefwyr a all eich helpu os yw hyn yn briodol.

Adran 3: Treial

18. Pan rowch dystiolaeth yn y treial, cewch wneud hyn drwy gyfrwng dolen fyw neu mewn fideo wedi'i recordio ymlaen llaw. Ond os ewch i'r llys i roi dystiolaeth yn y treial, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
- Os yw'n bosibl, cewch gyfarfod â'r erlynydd neu gynrychiolydd GEG a gofyn cwestiynau iddo neu iddi am broses y llys, pa mor hir y mae'n debygol y bydd rhaid i chi aros cyn rhoi dystiolaeth a chael gwybod am unrhyw oediad;
 - Gofyn i staff GLITEM a gewch fynd i adeilad y llys drwy fynedfa wahanol i'r unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid i chi weld yr unigolyn a amheuir na'i deulu a'i ffrindiau wrth fynd i'r llys.
 - Os yw'n bosibl, cewch aros mewn man ar wahân i'r unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau cyn dweud wrth y llys beth ddigwyddodd i chi;
 - Os yw'n bosibl, pwynt cyswllt yn y llys lle gallwch fynd i gael gwybod beth sy'n digwydd yn yr achos tra'r ydych yn aros i roi eich dystiolaeth;
 - Gofyn i staff y llys drefnu unrhyw fesurau arbennig ar eich cyfer os yw'r llys wedi cytuno arnynt;
 - Rhoi eich manylion cyswllt i staff y llys fel y gallant eich galw'n ôl yn gyflym os oes angen os gadewch adeilad y llys am gyfnod byr.

Adran 4: Ar ôl y treial

19. Ar ôl y treial, mae gennych hawl i dderbyn unrhyw gostau y mae GEG wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i chi o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i GEG dderbyn ffurflen wedi'i llenwi'n gywir¹⁶.
20. Mae paragraff 21 yn rhoi gwybodaeth i chi am wasanaethau y mae gennych hawl i'w cael gan yr Uned Gofal i Dystion. Weithiau, bydd yr heddlu'n rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth hon i chi yn eu lle os mai hwy yw eich prif bwynt cyswllt. Bydd yr heddlu'n dweud wrthych os mai hwy yw eich prif bwynt cyswllt. Mae gennych **hawl** i dderbyn y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion dderbyn y wybodaeth gan y llys.
21. Mae gennych hefyd **hawl** i gael gwybod:
- Am ganlyniad gwrandawriad y treial a'r ddedfryd a roddwyd i'r unigolyn a amheuir os cafodd gollfarn. Bydd hyn yn cynnwys eglurhad byr o ystyr y ddedfryd. Os na all yr Uned Gofal i Dystion ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y ddedfryd, byddant yn eich cyfeirio at GEG a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth;
 - Dyddiadau unrhyw wrandawriadau pellach os yw'r unigolyn a amheuir yn apelio yn erbyn y gollfarn neu'r ddedfryd;
 - Canlyniad unrhyw apêl yn erbyn y ddedfryd a roddodd y llys yn wreiddiol;
 - Gwybodaeth am wasanaethau i ddiodefwyr a all eich helpu os oes rhai ar gael

¹⁶ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Erlyn y Goron (Lwfansau Tystion ac ati) 1988.

22. Rhoddir eglurhad o'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, a gynigir gan yr ymddiriedolaeth prawf, isod. Mae gennych **hawl** i gael yr un gefnogaeth ag oedolion gan yr ymddiriedolaeth prawf ar ôl y treial. Amlinellir hyn ym Mhennod 1, rhan A, adran 6 y Cod hwn. Os yw'r troseddwr dan oruchwyliaeth Tîm Troseddau Ieuencid (TTI), byddant yn cysylltu â chi os ydynt yn ymwneud â'r achos a'ch bod wedi cytuno i gael gwybodaeth bellach. Nes eich bod yn 18 oed, bydd yr ymddiriedolaeth prawf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch rhieni neu eich gwarcheidwaid yn eich lle, oni bai eu bod yn ystyried bod hyn yn amhriodol. Pan fyddwch yn 18, bydd yr ymddiriedolaeth prawf yn eich diweddarau'n uniongyrchol.

Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

23. Os canfyddir bod yr unigolyn a amheuir yn euog o drosedd treisgar neu rywiol a'i fod yn mynd i'r carchar am 12 mis neu fwy, neu'n cael ei gadw mewn ysbyty diogel oherwydd afiechyd meddyliol, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- Cael gwybod pan ystyrir rhyddhau'r troseddwr;
- Cael gwybod pan gaiff y troseddwr ei ryddhau o'r carchar neu'r ysbyty a chael gwybod am unrhyw amodau cysylltiedig. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys amodau na chaiff y troseddwr gysylltu â chi mewn unrhyw ffordd;
- Cael gwybod y cewch ddewis gadael y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr unrhyw bryd.

Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr

24. Os cafodd y troseddwr rai mathau o ddedfrydau, gan gynnwys 'dedfryd oes', am drosedd arbennig o ddifrifol, bydd sefydliad o'r enw'r Bwrdd Parôl yn ystyried a ddylid rhyddhau'r troseddwr yn y pen draw neu ei symud i garchar agored. Bydd hyn yn digwydd yn agos at ddiwedd isafswm y ddedfryd o garchar a bennodd y barnwr i'r carcharor, neu ar ôl diwedd yr isafswm hwnnw. Mae'r Bwrdd Parôl yn gwneud penderfyniadau drwy gydweithio â sefydliadau gan gynnwys y carchar a'r ymddiriedolaeth prawf i gael dealltwriaeth lawn o risg y troseddwr a gweld a yw'n ddiogel ei ryddhau dan oruchwyliaeth. Gan mai dim ond rhai mathau o achosion y bydd y Bwrdd Parôl yn eu hystyried, dylech ofyn i'ch rhiant neu warcheidwad, neu i'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (gweler yr eirfa), a yw hyn yn berthnasol i chi.
25. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn annhebygol eich bod wedi bod mewn unrhyw gysylltiad â'r troseddwr ers blynyddoedd lawer; fodd bynnag, os ydych yn bryderus neu os oes gennych unrhyw dystiolaeth newydd i awgrymu y gallai'r troseddwr fod yn beryglus i chi ar hyn o bryd, dylech drafod hyn â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn sicrhau bod y bobl a fydd yn paratoi adroddiadau risg y Bwrdd Parôl yn ymwybodol o hyn wrth iddynt ystyried achos y troseddwr.
26. Gofynnir i chi a hoffech wneud Datganiad Personol Dioddefwr, a bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried hwn os oes angen iddynt benderfynu a yw'n ddiogel rhyddhau'r troseddwr neu ei symud i garchar agored. Os na hoffech wneud datganiad ysgrifenedig,

gallwch ddweud wrth eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr sut y gwnaeth y trosedd eich brifo chi neu eich teulu, sut yr ydych yn dal i deimlo am y trosedd, a sut y byddech yn teimlo am ryddhau'r troseddwr. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn sicrhau bod y Bwrdd Parôl yn ymwybodol o hyn wrth iddynt ystyried achos y troseddwr.

Adran 5: Cyfiawnder Adferol

27. Mae gennych **hawl** i dderbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan yr heddlu a chael gwybod sut y gallech gymryd rhan.
28. Mae Cyfiawnder Adferol yn gyfle i'r dioddefwr a'r bobl a gyflawnodd y trosedd i siarad am yr hyn a ddigwyddodd. Gall y dioddefwr neu ei berthnasau agos a'r troseddwr geisio dod o hyd i ffyrdd i unioni'r niwed a achoswyd. Gall hyn eich helpu chi fel dioddefwr i symud ymlaen â'ch bywyd a helpu'r troseddwr i ddeall yr hyn a wnaeth a sut yr oeddech chi'n teimlo am y peth. Mae Cyfiawnder Adferol yn wirfoddol – nid oes rhaid i chi gymryd rhan. Rhaid i chi a'r troseddwr gytuno i gymryd rhan cyn y gall ddigwydd. Felly, ni fydd ar gael ym mhob achos ac efallai na fydd yn addas ym mhob achos.
29. Os yw'r troseddwr yn yr achos dros 18 oed, mae gennych chi, eich rhieni neu eich gwarcheidwaid **hawl** i dderbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan yr heddlu a fydd naill ai'n cynnig y wybodaeth hon i chi'n uniongyrchol neu'n eich cynghori am y ffordd orau o ddysgu mwy amdano.

30. Os yw'r troseddwr yn yr achos dan 18 oed, mae gennych chi, eich rhieni neu eich gwarcheidwad **hawl** i gael y canlynol gan y Tîm Troseddau leuenctid:
- Cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol os yw ar gael;
 - Gofyn am gael gwybod am hynt achos y troseddwr;
31. Cewch hefyd ofyn i'r heddlu beidio â rhannu eich manylion â Thîm Troseddau leuenctid os nad ydych yn dymuno cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol.

Adran 6: Digolledu

32. Anogir chi i ddod o hyd i oedolyn cyfrifol i wneud hawliad ar eich rhan. Mae manylion sut i wneud cais ym Mhennod 1, rhan A, adran 8 (i).

Adran 7: Sut i gwyno

33. Os nad ydych yn meddwl eich bod wedi derbyn y gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae gennych hawl i'w cael yn y Cod hwn, mae manylion am sut i gwyno ym Mhennod 1, rhan A, adran 9 section 9.

Rhan B:

Dyletswyddau asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc

1. Mae'r adran hon yn nodi pa wybodaeth, cymorth a gwasanaethau y dylai darparwyr gwasanaeth eu darparu i ddioddefwyr troseddau sydd dan 18 mlwydd oed. Er mwyn osgoi amheuaeth, rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu'r hawliau i ddioddefwyr sy'n blant, neu i'w rhieni, fel y'u hamlinellir ym Mhennod 2, Rhan A.
2. Dylai pennaf les y plentyn fod yn brif ystyriaeth i ddarparwyr gwasanaeth bob amser.
3. Mae'r adran hon yn amlinellu'r dyletswyddau y mae'n rhaid i'r Uned Gofal i Dystion berthnasol eu darparu i ddioddefwyr. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu ddarparu'r wybodaeth yn y paragraff hwn i ddioddefwyr yn lle'r Uned Gofal i Dystion, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddioddefwyr. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth ddioddefwyr os yw hyn yn berthnasol iddynt a chytuno â'r Uned Gofal i Dystion pa rai o'r gwasanaethau canlynol y byddant yn eu darparu.

Adran 1: Ymchwiliadau'r Heddlu

4. Rhaid i'r **heddlu**:
 - Darparu'r hawliau i ddioddefwyr sy'n blant, neu i'w rhieni neu warcheidwaid, fel y'u hamlinellir yn Adran 1 Pennod 2, Rhan A;
 - Atgyfeirio dioddefwyr at wasanaethau priodol i ddioddefwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl i honiad gael ei riportio, oni bai nad ydynt yn dymuno cael eu hatgyfeirio;
 - Sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i ddioddefwyr neu eu rhieni neu warcheidwaid, megis taflen "Gwybodaeth i Ddioddefwyr Troseddau", o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r dioddefwr wneud honiad o ymddygiad troseddol. Rhaid i hyn gynnwys manylion cyswllt gwasanaethau i ddioddefwyr;
 - Cynnal asesiad i ganfod pa gefnogaeth sydd ei hangen ar y dioddefwr, yn unol â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Rhagymadrodd;
 - Ystyried y dull gorau o gofnodi tystiolaeth y dioddefwr, gan ystyried amgylchiadau a safbwyntiau'r dioddefwr, megis recordio stori'r dioddefwr ar fideo;¹⁷

¹⁷ Mae adran 21 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn datgan mai'r 'brif reol' ar gyfer tystion sy'n blant yw bod rhaid i'r Llys ddarparu (drwy gyfrwng cyfarwyddyd) ar gyfer derbyn unrhyw recordiad perthnasol yn unol ag adran 27 (tystiolaeth wedi'i recordio ar fideo yn bennaf); a bod rhaid iddynt ganiatáu i'r tyst ddefnyddio dolen fyw i roi unrhyw dystiolaeth nad yw wedi'i recordio ymlaen llaw yn yr achos.

- Cynnig Datganiad Personol Dioddefwr – gellir recordio hwn ar fideo hefyd;
 - Egluro pa fesurau arbennig a all fod ar gael i'r dioddefwr i'w helpu i roi'r dystiolaeth orau bosibl os oes rhaid iddo neu iddi fynd i'r llys a chofnodi unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr ynglŷn â mynd i'r llys;
 - Hysbysu dioddefwyr ac egluro'r rhesymau os caiff unigolyn a amheuir ei arestio, ei ryddhau heb gymryd camau pellach, ei ryddhau ar fechnïaeth, neu os caiff amodau mechnïaeth eu newid neu eu canslo, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl digwyddiad o'r fath;
 - Hysbysu dioddefwyr os nad oes neb wedi'i amau a bod achos yn dod i ben heb gyhuddiad, a rhoi rhesymau;
 - Trafod a chytuno â'r dioddefwr, neu â'i rieni neu warcheidwaid, pa mor aml y cânt eu diweddarau am yr achos.
5. Os yw'r **heddlu** yn gofyn am i blentyn gael cyfweiliad, rhaid iddynt sicrhau bod gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n addas yn cynnal y cyfweiliad ymchwiliol mewn modd sy'n ystyried anghenion a safbwyntiau'r dioddefwr er mwyn peri cyn lleied â phosibl o straen iddo neu iddi. Dylid cynllunio hyn ymlaen llaw, gan ystyried ffactorau megis:
- (i) yr angen am Gyfryngwr Cofrestredig i helpu'r dioddefwr i gyfathrebu tystiolaeth yn effeithiol;
 - (ii) unrhyw anabledau neu anghenion arbennig sydd gan y dioddefwr;
 - (iii) amseru a lleoliad y cyfweiliad;
 - (iv) rhyw neu hil y cyfwelydd a'r dioddefwr;
 - (v) yr angen i oedolyn addas fod yn bresennol i roi cefnogaeth emosïynol.
6. Rhaid i'r **heddlu**:
- Cynnal y cyfweiliad heb oediad digyfiawnhad ar ôl i'r ffeithiau gael eu riportio;
 - Cynnal y cyfweiliad, pan fo angen, mewn adeilad wedi'i gynllunio neu ei addasu at y diben hwnnw;
 - Os yw'n bosibl a phan fo'n briodol, sicrhau mai'r un unigolyn sy'n cynnal pob cyfweiliad â'r dioddefwr ifanc;
 - Cyfyngu ar nifer y cyfweiliadau pan fo'n bosibl a pheidio â chynnal cyfweiliadau oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad; a
 - Caniatáu i oedolyn o ddewis y plentyn ddod gydag ef neu hi, oni bai ei bod er pennaf les y plentyn i'r unigolyn dan sylw beidio â bod yn bresennol.

Adran 2: Cyn y treial (Cyhuddo, Mechnïaeth a Gwybodaeth am y treial)

Cyhuddo a Mechnïaeth

7. Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu'r hawliau i ddioddefwyr ifanc, neu i'w rhieni neu warcheidwaid, fel y'u hamlinellir ym Mhennod 2, Rhan A, Adran 2.
8. Rhaid i'r **heddlu**, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad neu'r digwyddiad dan sylw:
- Hysbysu dioddefwyr bod yr unigolyn a amheuir yn cael ei gyhuddo a'i ryddhau ar fechnïaeth yr heddlu i ymddangos yn y llys, a rhoi dyddiad a lleoliad y gwrandawriad llys, manylion unrhyw amodau mechnïaeth perthnasol ac unrhyw newidiadau i amodau mechnïaeth;

- Hysbysu dioddefwyr eu bod hwy (yr heddlu) yn bwriadu gwneud cais am remandio'r unigolyn a amheuir yn y ddalfa, dyddiad y gwrandawriad remand a'i ganlyniad;
 - Hysbysu dioddefwyr am unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth fechniaeth a'r hyn y gall y dioddefwr ei wneud os caiff y rhain eu torri ar ôl caniatáu mechniaeth;
 - Hysbysu dioddefwyr os penderfynir peidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir a'r rhesymau am y penderfyniad hwn, heblaw os yw GEG wedi gwneud y penderfyniad ar ôl derbyn adroddiad cyn cyhuddo gan yr heddlu yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb â'r swyddog;
 - Hysbysu dioddefwyr os gwneir unrhyw benderfyniad y tu allan i'r llys am unigolyn a amheuir ac egluro natur y penderfyniad hwnnw.
9. Pan fo'n briodol dylai'r **heddlu**, neu unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall sy'n gweithredu fel prif bwynt cyswllt yn yr achos, roi gwybod i ddiodefwyr fod therapi cyn treial ar gael os oes ei angen ac y caiff ei hwyluso ar gais.
10. Rhaid i **GEG**:
- Ystyried a ddylid gwneud cais i'r llys am fesurau arbennig;
 - Hysbysu dioddefwyr o fewn 1 diwrnod gwaith am unrhyw benderfyniad i beidio ag erlyn ar ôl derbyn adroddiad cyn cyhuddo gan yr heddlu ac ymgynghoriad wyneb yn wyneb â'r swyddog. Rhaid i GEG ddweud wrth ddiodefwyr sut y gallant ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydynt yn fodlon ag ef.

Paratoi am y Treial

11. Rhaid i **GEG** roi gwybod i ddiodefwyr am:
- Unrhyw benderfyniad i atal achos o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad. Rhaid i GEG egluro i ddiodefwyr sut y gallant gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallant ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydynt yn fodlon ag ef;
 - Unrhyw benderfyniad i newid cyhuddiad(au) yn erbyn yr unigolyn a amheuir yn sylweddol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad.
12. Rhaid i **GEG** roi'r rhestr o'r tystion sy'n mynd i'r llys i'r Unedau Gofal i Dystion perthnasol cyn gynted ag y bydd yn derfynol fel y gallant hwy (yr Uned Gofal i Dystion) roi gwybod i ddiodefwyr sy'n gorfod rhoi tystiolaeth.
13. Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** roi gwybod i ddiodefwyr:
- Am ddyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriadau cyn treial, beth ddigwyddodd yn y llys a beth ddylai ddigwydd nesaf;
 - A gaiff yr unigolyn a amheuir ei ryddhau ar fechniaeth neu ei remandio yn y ddalfa, a'r rhesymau am y penderfyniad hwn;
 - Os cyhoeddir gwarant arestio gan fod yr unigolyn a amheuir wedi methu â bod yn bresennol yn y llys pan ofynnwyd iddo wneud hynny, a phan gaiff yr unigolyn a amheuir ei arestio eto.

Rhaid darparu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion (neu mewn achos lle mae'r heddlu wedi cytuno i

ddarparu'r wybodaeth, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r heddwes â gofal) sy'n gyfrifol am yr achos ei derbyn, neu wneud penderfyniad o'r fath.

14. Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion**:

- Ar ôl ple dieuog, trafod â'r dioddefwr unrhyw anghenion sydd ganddo neu ganddi a chyfeirio'r dioddefwr at wasanaethau i ddiodesfwr a all helpu pan fo'n briodol;
- Hysbysu diodesfwr sy'n gorfod mynd i'r llys i roi tystiolaeth o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod gan GEG. Rhaid i ddiodesfwr gael gwybod beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut i gael Pecyn Tystion Ifanc;
- Cynnig asesiad llawn o anghenion diodesfwr sy'n gorfod rhoi tystiolaeth i ganfod pa fesurau arbennig a chymorth arall y gallai fod eu hangen arnynt;
- Cynnig ymweliad â'r llys cyn y treial i'r diodesfwr i ymgyswilio ag ystafell y llys ac i ymarfer defnyddio cyfarpar mesurau arbennig;
- Dangos datganiad y diodesfwr wedi'i recordio ar fideo neu wedi'i ysgrifennu i'r diodesfwr ychydig cyn y treial i'w atgoffa.

15. Rhaid i **GLITEM** hysbysu Unedau Gofal i Dystion am unrhyw ddyddiadau gwrandawiaid, gohiriadau cyn neu ar ôl cychwyn achos a phenderfyniadau'r llys o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl unrhyw benderfyniad o'r fath. Yna, rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** hysbysu'r diodesfwr o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y wybodaeth gan y llys.

Adran 3: Treial

16. Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu'r hawliau i ddiodesfwr sy'n blant, neu i'w rhieni neu warcheidwaid, fel y'u hamlinellir ym Mhenod 2, Rhan A, Adran 3.

17. Rhaid i **staff Llys GLITEM** sicrhau, pryd bynnag y bo'n bosibl:

- Bod unrhyw fesurau arbennig sydd eu hangen ar ddiodesfwr ar gael os cawsant eu cyfarwyddo gan y llys;
- Bod diodesfwr yn gallu mynd i'r adeilad heb weld y troseddwr ac yn eistedd mewn man aros ar wahân i'r unigolyn a amheuir;
- Nad oes rhaid i ddiodesfwr aros am fwy na dwy awr i roi tystiolaeth;
- Eu bod yn cymryd manylion cyswllt yr holl ddiodesfwr sy'n dystion er mwyn eu galluogi i adael adeilad y llys a chael clywed ganddynt os oes angen;
- Bod pwynt cyswllt i ddiodesfwr fel y gallant gael gwybod beth sy'n digwydd yn eu hachos tra mae'n cael ei wrando yn y llys.

18. Rhaid i **erlynydd GEG** neu **gynrychiolydd GEG** arall yn y llys:

- Pan fo'n bosibl, cyflwyno eu hunain i ddiodesfwr ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am broses y llys a pha mor hir y bydd rhaid iddynt aros cyn rhoi tystiolaeth;
- Pan fo'n bosibl, egluro unrhyw oediad a dweud wrth ddiodesfwr pa mor hir y mae'n debygol y byddant yn aros.

Adran 4: Ar ôl y treial

19. Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu'r hawliau i ddioddefwyr ifanc, neu i'w rhieni neu warcheidwaid, fel y'u hamlinellir ym Mhennod 2, Rhan A, Adran 4.
20. Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** hysbysu dioddefwyr o fewn 1 diwrnod ar ôl derbyn y wybodaeth berthnasol:
- Am ganlyniad gwrandawriad y treial a'r ddedfryd a roddwyd i'r unigolyn a amheuir os cafodd gollfarn. Rhaid i hyn gynnwys eglurhad byr o ystyr y ddedfryd. Os na all yr Uned Gofal i Dystion ateb unrhyw gwestiynau sydd gan ddioddefwyr, rhaid iddynt eu cyfeirio at GEG;
 - Os yw'r unigolyn a amheuir yn apelio yn erbyn y gollfarn neu'r ddedfryd a chanlyniad unrhyw apêl;
 - Os ceir newid sylweddol i'r ddedfryd a roddodd y llys yn wreiddiol;
 - Gwybodaeth am wasanaethau i ddioddefwyr os ydynt ar gael a phan fônt yn briodol.
21. Rhaid i **GEG**:
- Talu unrhyw gostau y maent wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i'r dioddefwr o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddynt dderbyn y ffurflen hawlio wedi'i llenwi'n gywir ;
 - Ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y dioddefwr am y ddedfryd os yw'r Uned Gofal i Dystion wedi cyfeirio'r dioddefwr at GEG.
22. Rhaid i **staff Llys y Goron a'r Llys Apêl** hysbysu Unedau Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith (ar ôl dyddiad gwneud y penderfyniad) am ddyddiad gwrandawriad unrhyw apêl yn erbyn collfarn neu ddedfryd, ac am ganlyniad yr apêl.
23. Os yw unigolyn yn gymwys i gymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, rhaid i **Unedau Gofal i Dystion**:
- Hysbysu dioddefwyr am y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr;
 - Oni bai bod dioddefwyr yn dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, cyfeirio eu manylion at yr ymddiriedolaeth prawf o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl diwedd y cyfnod lle caiff dioddefwyr ddewis bod yn rhan o'r Cynllun.
24. Rhaid cwblhau'r ddau gam hyn o fewn 20 diwrnod ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion gael gwybod am y ddedfryd gan y llys.
25. Rhaid i'r **ymddiriedolaeth prawf**:
- Cyflawni'r holl ddyletswyddau a amlinellir ym Mhennod 1, Rhan B, Adran 6 i ddioddefwyr dan 18 oed, eu rhieni a'u gwarcheidwaid.
26. Rhaid i'r **Gwasanaeth Carchardai**:
- Sicrhau bod unrhyw amodau cymeradwy sy'n ymwneud â'r dioddefwr wedi'u cynnwys ar drwydded rhyddhau'r troseddwr, a sicrhau y caiff yr ymddiriedolaeth prawf wybod am y wybodaeth hon;
 - Cynnal llinell gymorth ffôn y gwasanaeth carchardai.

¹⁸ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Erllyn y Goron 'Lwfansau Tystion ac ati' 1988.

27. Mae'r dyletswyddau ar y **Bwrdd Parôl** ar gyfer unigolion dan 18 oed yr un fath ag ar gyfer oedolion, felly rhaid i'r **Bwrdd Parôl**:
- Cyflawni'r dyletswyddau sydd arnynt yn adran 6 Rhannau A a B, Pennod 1. Mae hyn yn cynnwys ystyried y risg i'r dioddefwr, gan gynnwys unrhyw sylwadau a wnaethpwyd mewn Datganiad Personol Dioddefwr, wrth benderfynu a ddylid argymhell rhyddhau carcharorion.

Adran 5: Cyfiawnder Adferol

28. Rhaid i'r **heddlu a Thimau Troseddau leuenctid** gyflawni'r dyletswyddau sydd ganddynt yn unol â Phennod 1, Rhan B, Adran 7, a Phennod 2, Rhan A, Adran 5.

Adran 6: Digolledu

29. Gweler yr adran am wneud cais am ddigolledu ym Mhennod 1, rhan B, adran 8 (i).

Adran 7: Cwynion

30. Gweler yr adran am gwynion ym Mhennod 1, Rhan B, adran 9.

Pennod 3

Busnesau

1. Mae gan **bob busnes hawl** i'r canlynol:
 - Derbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod cyn belled â'u bod yn enwi pwynt cyswllt i'r holl gyfathrebu rhwng y busnes a'r darparwr gwasanaeth.
 - Gwneud Datganiad o Effaith ar yr un pryd â datganiad tyst tystiolaethol.
2. Gall busnesau o bob maint wneud Datganiad o Effaith. Mae'r Datganiad o Effaith yn amlinellu sut y mae trosedd wedi effeithio ar y busnes. Rhaid i'r llys benderfynu ar ddedfryd briodol, gan ystyried amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr ynghyd â'r effaith ar unrhyw ddiodefwyr, os yw'r llys o'r farn bod hynny'n briodol.
3. Bydd yr heddlu'n cyfeirio busnes at ganllawiau am sut i gwblhau'r datganiad. Mae'r datganiad yn rhoi llais i'r busnes yn y broses cyfiawnder troseddol, ond ni ddylai roi barn am y ddedfryd neu'r gosb y dylai'r troseddwr ei chael.
4. Caiff y pwynt cyswllt a enwyd gyflwyno'r datganiad ar-lein neu mewn ffacs neu drwy'r post i'r heddlu. Nid yw gwneud Datganiad o Effaith yn atal diodefwyr unigol rhag gwneud Datganiad Personol Dioddefwr ar wahân. Caiff busnes wneud Datganiad o Effaith arall yn ddiweddarach i ychwanegu at y datganiad presennol, ei egluro neu ei addasu, cyn belled â bod hyn cyn y dyddiad y daw'r achos gerbron y llys neu y caiff yr unigolyn a amheuir ei ddedfrydu. Rhaid i unrhyw ddatganiad a gyflwynir gydymffurfio ag adran 9 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967.
5. Os yw'r achos yn cyrraedd y llys, caiff y Datganiad o Effaith ei ddatgelu i'r amddiffyniad. Efallai y bydd rhaid i'r unigolyn cyswllt a wnaeth y datganiad fod yn bresennol mewn gwrandawriad llys a chael ei holi am y datganiad hwn.

Dyletswyddau

6. Dylai'r **heddlu** gynnig cyfle i unigolyn cyswllt a enwyd i wneud Datganiad o Effaith, ei gyfeirio at ganllawiau am sut i gwblhau un, ac anfon datganiad wedi'i gwblhau ymlaen at GEG.
7. Rhaid i **GEG** sicrhau y tynnir sylw'r llys at Ddatganiad o Effaith, pan fo'n briodol.

Geirfa

Mae'r adran hon yn egluro'r geiriau neu'r brawddegau allweddol a ganfyddir yn y Cod hwn.

Rhyddfarnu

Rhyddhau'r unigolyn neu unigolion a amheuir ar ôl dedfryd neu gyfarwyddyd dieuog.

Gohirio ar ôl cychwyn

Gohiriad dros dro i wrandawriad achos ar ôl iddo gychwyn, drwy orchymyn y llys.

Apêl

Proses gyfreithiol lle dygir achos gerbron llys uwch i adolygu penderfyniad llys is.

Gwarant Arestio

Gwarant a gyhoeddir gan lys sy'n awdurdodi arestio unigolyn yr amheuir ei fod wedi cyflawni trosedd.

Mechnïaeth (ac amodau mechnïaeth)

Rhyddhau unigolyn a amheuir o'r ddalfa tan ei ymddangosiad nesaf yn y llys. Weithiau, bydd hyn yn amodol ar roi sicrwydd a/neu gydymffurfio ag amodau mechnïaeth penodol, megis riportio i orsaf heddlu'n rheolaidd.

Bargyfreithiwr

At ddibenion y Cod hwn, yr eiriolwr sy'n cynrychioli GEG fel yr awdurdod erlyn yn y llys.

Cyhuddiad

Cyhuddiad ffurfiol yn erbyn unigolyn/unigolion.

Perthnasau agos

Mae hyn yn cyfeirio at berthynas agosaf, priod, partner, rhieni, gwarcheidwaid a/neu blant y dioddefwr. Os yw'r dioddefwr yn oedolyn agored i niwed, gall hyn hefyd gyfeirio at ofalwr. Gellir ystyried bod aelodau teulu eraill yn

berthnasau agos yn unol â disgresiwn y darparwr gwasanaeth.

Llys Apêl

Llys sy'n gwrando apeliadau yn erbyn dyfarniadau sifil a throseddol o Lys y Goron, yr Uchel Lys a Llysoedd Sirol.

GEG (Gwasanaeth Erlyn y Goron)

GEG sy'n gyfrifol am erlyn achosion troseddol sy'n cael eu hymchwilio gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Ymddygiad troseddol

Ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd yn unol â'r Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau.

Llys y Goron

Llys lle gwrandewir achosion troseddol gerbron barnwr a rheithgor. Mae Llys y Goron hefyd yn gweithredu fel llys apêl ar gyfer achosion a wrandewir yn y llys ynadon a'r llys ieuencid.

Hawl

Gwasanaeth(au) y gallwch ei ddisgwyl/eu disgwyl fel dioddefwr trosedd gan y darparwr gwasanaeth perthnasol.

Datganiad Tyst Tystiolaethol

Fersiwn tyst o ffeithiau a manylion trosedd neu ddigwyddiad, wedi'i ysgrifennu neu ei recordio ar fideo.

Swyddog Cyswllt Teuluol (SCT)

Heddwys sydd wedi'i hyfforddi i weithio gyda theuluoedd mewn profedigaeth i sicrhau eu hyder a'u hymddiriedaeth, i ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth am yr ymchwiliad ac asiantaethau cymorth, ac i gasglu gwybodaeth sy'n cyfrannu at yr ymchwiliad.

Gwarcheidwad mewn perthynas ag unigolyn dan 18 oed

Unigolyn sydd, am y tro, yn gofalu am unigolyn sydd dan 18 mlwydd oed.

Trosedd casineb

Unrhyw drosedd a gaiff ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol y dioddefwr.

Amodau trwydded

Caiff rhai carcharorion eu rhyddhau o'r carchar 'ar drwydded', sy'n golygu y byddant yn gwasanaethu gweddill eu dedfryd yn y gymuned dan oruchwyliaeth. Tra eu bod ar drwydded, mae'n ofynnol i droseddwyd gydymffurfio ag amodau penodol, sydd wedi'u cynllunio i adsefydlu'r troseddwr, unioni eu hymddygiad troseddol, a diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr.

Llys Ynadon

Llys lle gwrandewir achosion troseddol gerbron ynadon neu farnwyr dosbarth, sy'n archwilio'r dystiolaeth a'r datganiadau a roddir ger eu bron.

Asesiad o anghenion

Gwerthusiad a gynhelir gan ddarparwyr gwasanaeth i bennu pa fath o gefnogaeth y gall fod ei angen ar ddiodeffwr ar ôl trosedd. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd i ganfod unrhyw fesurau arbennig y gall fod eu hangen ar ddiodeffwr os yw am fod yn rhoi tystiolaeth yn y llys.

Hysbysu/Rhoi gwybod i ddiodeffwr

Postio llythyr, gwneud galwad ffôn, cyfarfod wyneb yn wyneb neu anfon e-bost, ffacs, neges destun neu unrhyw ddull cyfathrebu arall y mae'r darparwr gwasanaeth yn ystyried sydd fwyaf priodol.

Trosedd

Unrhyw drosedd y gellir ei gosbi yn Llys y Goron, mewn Llys Ynadon neu â phenderfyniad y tu allan i'r llys.

Troseddwr

Yr unigolyn a gyflawnodd y trosedd.

Penderfyniad y tu allan i'r llys

Dewisiadau eraill yn lle erlyn, megis rhybuddiadau, rhybuddiadau amodol a hysbysiadau cosb am anhrefn, gyda'r bwriad o ymdrin â throseddau lefel isel – troseddau cyntaf yn aml – lle na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd.

Ombwdsmon Seneddol

Mae'n ymchwilio i gwynion a dderbynnir gan ASau fod unigolion wedi cael eu trin yn annheg neu wedi derbyn gwasanaeth gwael gan adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth.

Mechniaeth heddlu

Pan fydd yr heddlu'n caniatáu i unigolyn a amheuir adael yr orsaf heddlu ar yr amod y bydd yn dychwelyd i'r orsaf heddlu neu i'r llys ar ddiwrnod arall.

Gwrandawiadau cyn treial

Y rhan o broses y llys lle bydd pobl yn trafod rhannau o'r achos cyn y treial.

Ymddiriedolaethau prawf

Darparwyr gwasanaethau prawf a rheoli troseddwyd. Yr enw presennol ar y darparwyr hyn yw ymddiriedolaethau prawf. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys adsefydlu troseddwyd, lleihau eu risg, diogelu'r cyhoedd, cosbi troseddwyd, a darparu gwasanaethau i ddiodeffwr. Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn gweithio o fewn ymddiriedolaethau prawf (gweler 'Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr' isod).

Erlynydd

Y cyfreithiwr sy'n cyflwyno'r achos yn erbyn yr unigolyn/unigolion a amheuir.

Achosion cymwys

Yr achosion lle mae gennych hawl i gyfarfod â GEG, sef: llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol, dynladdiad teuluol, achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal neu drwy yrru'n anystyriol, achosi marwolaeth drwy yrru heb drwydded, dan waharddiad neu heb yswiriant a chymryd cerbyd yn waethygedig lle caiff marwolaeth ei hachosi.

Gwrandawiadau remand

Gwrandawriad llys i benderfynu a ddylid cadw unigolyn a amheuir yn y ddalfa i aros am ymddangosiad(au) pellach yn y llys.

Cyfiawnder Adferol

Dyma'r broses o uno pobl sydd wedi'u niweidio gan drosedd neu wrthdaro â'r rheini sy'n gyfrifol am y niwed, er mwyn dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen.

Cleifion cyfyngedig

Caiff cyfyngiadau eu gosod ar glaf os yw'r llys yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu pobl eraill rhag niwed difrifol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â'r broses o reoli "Cleifion cyfyngedig". Mae hyn yn golygu mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud penderfyniadau am adsefydlu'r troseddwr, ac y caiff Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ei neilltuo i chi i roi gwybodaeth i chi am ddatblygiadau allweddol. Caiff "cleifion digyfyngiad" eu rheoli gan glinigwyr, ac efallai y gall rheolwyr ysbyty roi gwybodaeth i chi am ddatblygiadau allweddol o ran eu hadsefydlu hwy.

Dedfryd

Cosb a roddir i unigolyn a amheuir pan fydd llys yn ei gael yn euog.

Darparwr gwasanaeth

Unigolyn sy'n gorfod darparu gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn, fel y nodir yn y Rhagymadrodd, paragraff 6.

Mesurau Arbennig

Y gwahanol fesurau y gall llys eu gorchymyn i gynorthwyo tystion sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth i roi eu tystiolaeth orau mewn llys. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys dolenni teledu byw, datganiadau wedi'u recordio ar fideo, sgriniau o amgylch y blwch tyst a chymorth i gyfathrebu, gan gynnwys defnyddio cyfryngwr.

Gwys

Gorchymyn i ymddangos yn y llys neu gynhyrchu tystiolaeth iddo.

Goruchaf Lys

Llys apêl uchaf y Deyrnas Unedig.

Unigolyn a amheuir

Rhywun y mae'r heddlu'n credu y gallai fod wedi cyflawni'r trosedd.

Treial

Y broses llys sy'n penderfynu a yw rhywun sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn euog.

Dioddefwr

Unigolyn â hawl i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn, fel y nodir ym mharagraffau 8-14 Rhagymadrodd y Cod.

Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

Cynllun statudol a gynigir gan ymddiriedolaethau prawf i ddioddefwyr troseddwr sydd wedi cyflawni troseddau treisgar neu rywiol penodol ac sydd wedi cael dedfryd o garchar am 12 mis neu fwy, neu wedi'u cadw mewn ysbyty diogel. Mae'n galluogi dioddefwyr i gael gwybod am ddatblygiadau allweddol yn nedfryd y troseddwr, a gwneud sylwadau am amodau a all fod yn berthnasol i'r troseddwr pan gaiff ei ryddhau.

Swyddog Cyswllt Dioddefwyr

Staff prawf yw Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (SCD) ac maent yn gweithio gyda dioddefwyr sy'n rhan o'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Mae SCD yn rhoi gwybod i ddioddefwyr am gamau neu ddigwyddiadau allweddol yn nedfryd y troseddwr ac yn sicrhau y caiff safbwyntiau a phryderon dioddefwyr eu cyfleu i'r carchar neu'r Bwrdd Parôl wrth iddynt ystyried rhyddhau'r troseddwr.

Gwasanaethau i ddioddefwyr

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cefnogi emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr troseddau.

Unedau Gofal i Dystion

Unedau sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru a Lloegr i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr a thystion mewn achosion sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Siarter Tystion

Mae hwn yn amlinellu'r cymorth a'r gefnogaeth y gall tyst ddisgwyl eu cael ar bob cam yn y broses cyfiawnder troseddol. Yn wahanol i'r Cod Dioddefwyr, nid yw'r Siarter Tystion wedi'i nodi yn y gyfraith.

Diwrnod gwaith

Diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith na diwrnod sy'n wyl banc dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. At ddibenion cyfrifo cyfnodau amser yn unol â'r Cod hwn, y "diwrnod gwaith" cyntaf yw'r diwrnod cyntaf ar ôl y penderfyniad neu'r digwyddiad.

Tîm Troseddau Ieuencid (TTI)

Tîm amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed sy'n mynd i drafferthion gyda'r gyfraith. Caiff TTI eu cydlynu gan awdurdod lleol a'u goruchwyllo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

